# Arfarnu canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol

Chwefror 2007

Estyn
Rhagoriaeth i bawb....Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

**Diben Estyn yw gwella ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau addysg lleol (AALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- AALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant y Ganolfan Byd Gwaith.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygiadau.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i'r Gymraeg)**

**© Hawlfraint y Goron 2007: Gellir defnyddio'r adroddiad hwn am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad**.

| **Cynnwys** | **Tudalen** |
|---|---|


**Cyflwyniad** **1**

Anghenion dysgu ychwanegol 2
Anghenion addysgol arbennig 3
Darpariaeth ar gyfer dysgwyr ag AAA yng Nghymru 3

**Cefndir** **6**

**Prif ganfyddiadau** **7**

**Argymhellion** **11**

**Arfarnu canlyniadau ar gyfer dysgwyr ag AAA: fframwaith** **14**

**Pa mor dda yw ein data presennol ar ddysgwyr gydag AAA?** **15**

**Beth yw'r canlyniadau dysgu mwyaf gwerthfawr, a sut gellir mesur y rhain?** **19**

**Pa mor dda y mae ysgolion yn arfarnu canlyniadau dysgu ar gyfer disgyblion ag AAA?** **24**

**Beth sy'n digwydd i wybodaeth am ganlyniadau dysgu ar adegau trosglwyddo allweddol?** **29**

**Pa mor dda y mae awdurdodau addysg lleol yn mesur ac yn arfarnu canlyniadau dysgu ar gyfer dysgwyr ag AAA?** **34**

**Mapio darpariaeth arbenigol mewn awdurdodau ac ysgolion** **42**

**Nodi costau darpariaeth AAA** **44**

**Cysylltiadau â gwella ysgolion a hunanarfarnu** **46**

**Casgliad** **47**

**Atodiad 1: Strwythur, amseru, a sail dystiolaeth y gwaith**

**Atodiad 2: Nodweddion mathau o AAA**

**Atodiad 3: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni? (Estyn, y Fframwaith Arolygu Cyffredin, Cwestiwn Allweddol 1)**

**Atodiad 4: Astudiaethau achos awdurdodau addysg lleol**

**Cyfeiriadau**

## Cyflwyniad

1 Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio ffyrdd o arfarnu canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol, yn unol â'r cais am gyngor yn y cylch gwaith gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i Estyn yn 2005-06 a 2006-07. Mae'r adroddiad:

- yn trafod datblygiad mesurau dilys a dibynadwy y canlyniadau addysgol ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol ar draws Cymru; ac
- yn cynnig fframwaith ar gyfer arfarnu'r canlyniadau hyn, sy'n gysylltiedig â hunanarfarniad ysgolion ac awdurdodau lleol.

2 Comisiynwyd y cyngor hwn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru fel rhan o'i gwaith ehangach i ddatblygu fframweithiau polisi a pherfformiad cydlynol i gefnogi addysg gynhwysol sy'n seiliedig ar dystiolaeth glir o arfer effeithiol.

3 Diben y cyngor hwn yw helpu Llywodraeth Cynulliad Cymru, Awdurdodau Lleol, ysgolion a darparwyr addysg eraill i ganfod:

- a yw dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cystal ag y gallant; a'r
- graddau y mae eu darpariaeth ychwanegol yn rhoi gwerth am arian.

4 Nod y cyngor hefyd yw cefnogi hunanarfarniad darparwyr o'r safonau y mae dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn eu cyflawni, trwy ddarparu fframwaith sy'n gysylltiedig â fframwaith arolygu Estyn.

5 Mae cyswllt agos rhwng y gwaith yn yr adroddiad hwn â thri maes arall datblygu polisi a pherfformiad cynhwysiad yn Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n ceisio:

- adolygu'r fframwaith statudol ar gyfer asesu a datganiadau ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig;
- adolygu'r trefniadau ariannu ar gyfer dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig; a
- grymuso athrawon a staff cymorth i fodloni anghenion dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.

6 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi comisiynu Swyddfa Archwilio Cymru i adolygu'r trefniadau ariannu ar gyfer dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig. Mae cyswllt agos rhwng gwaith Estyn ar arfarnu canlyniadau ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol â gwaith Swyddfa Archwilio Cymru ar reoli cyllid ar gyfer anghenion addysgol arbennig mewn Awdurdodau Addysg Lleol (AALlau) yng Nghymru.

7 Mae'r cyngor hwn yn ystyried effaith debygol y canlynol ar ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol:

- y prif faterion sy'n codi o'r adolygiad parhaus o'r Cwricwlwm Cenedlaethol;
- gweithredu'r Cyfnod Sylfaen;
- datblygiadau yn y trefniadau asesu yng Nghymru; a'r
- deunyddiau asesu newydd ar gyfer dysgwyr ag anawsterau dysgu dwys a lluosog, a gyhoeddwyd yn Llwybrau Dysgu: Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006.

8 Mae tri chyfnod i'r gwaith hwn. Mae Atodiad 1 yn cynnwys manylion strwythur, amseru a sail dystiolaeth y gwaith sydd wedi'i wneud hyd yma.

9 Mae'r adroddiad hwn yn cynrychioli canlyniad y ddau gyfnod cyntaf, yn cynnwys y cyfnod o fis Ebrill 2005 i fis Mawrth 2007. Yn y trydydd cyfnod, bydd Estyn yn rhoi cyngor pellach, os yw'n ofynnol iddo wneud hynny gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, i adeiladu ar ganfyddiadau'r adroddiad hwn.

**Anghenion dysgu ychwanegol**

10 Mae'r term anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn cwmpasu ystod eang iawn o anghenion. Mae Estyn yn defnyddio'r term ADY mewn perthynas â dysgwyr y mae eu hanghenion yn ychwanegol at anghenion mwyafrif eu cyfoedion, am nifer o resymau gwahanol, gan gynnwys dysgwyr sydd:

- ag anghenion addysgol arbennig (AAA), fel y'u diffinnir yng Nghod Ymarfer AAA Cymru (2002)
- yn anabl, fel y'u diffinnir yn Neddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995;
- ag anghenion meddygol;
- ag anawsterau emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiad;
- yn fwy galluog a dawnus; ac
- yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.

11 Mae cwmpas yr adroddiad hwn yn gyfyngedig i ddysgwyr ag ADY sydd ag anghenion addysgol arbennig (AAA). Mae rhai o'r dysgwyr hyn yn anabl hefyd, mae ganddynt anghenion meddygol a/neu anawsterau emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiad.

12 Nid yw'r adroddiad hwn yn ystyried anghenion dysgwyr sy'n abl ac yn ddawnus, na'r rheini y mae'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt. Fodd bynnag, gall yr egwyddorion a'r fframwaith a amlinellir yn yr adroddiad hwn fod yn ddefnyddiol wrth ddatblygu set briodol o fesurau canlyniad ar gyfer y dysgwyr hyn yn y dyfodol.

## Anghenion addysgol arbennig

13 Mae'r term AAA yn gymwys i ddysgwyr o bob lefel gallu sydd ag ystod amrywiol o anghenion, y gellir eu grwpio'n fras i'r pedwar maes:

- gwybyddiaeth a dysgu;
- cyfathrebu a rhyngweithio;
- synhwyrol a/neu gorfforol; a
- datblygiad ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol.

14 Mae prif nodweddion y meysydd angen hyn yn cael eu hesbonio'n llawn yn Atodiad 2.

## Darpariaeth ar gyfer dysgwyr ag AAA yng Nghymru

### Darpariaeth y blynyddoedd cynnar

15 Yn y blynyddoedd cynnar, mae plant ag anableddau ac AAA sy'n datblygu yn cael mynediad i ystod o ddarpariaeth addysg gynnar sy'n cynnwys:

- cymorth cyn ysgol gan wasanaethau awdurdod lleol a gwasanaethau iechyd;
- ysgolion meithrin a chanolfannau blynyddoedd cynnar;
- dosbarthiadau meithrin a derbyn mewn ysgolion cynradd prif ffrwd;
- dosbarthiadau blynyddoedd cynnar mewn ysgolion arbennig; a
- lleoliadau blynyddoedd cynnar na chynhelir.

### Darpariaeth ar gyfer disgyblion o oed ysgol statudol

16 Mae bron yr holl blant sydd ag AAA o oed ysgol statudol yn cael eu haddysgu mewn ysgolion prif ffrwd, gan gynnwys y rheini yn y sector annibynnol. Mae mwyafrif llethol y disgyblion hyn yn cael darpariaeth a chymorth ychwanegol drwy'r cynlluniau gweithredu gan yr ysgol (neu'r blynyddoedd cynnar) a gweithredu gan yr ysgol (neu'r blynyddoedd cynnar) a mwy fel y'u diffinnir yn y Cod Ymarfer AAA.

17 Mae datganiad AAA gan leiafrif bach iawn (3.2%) o ddisgyblion. Mae awdurdodau addysg lleol (AALlau) yn darparu cymorth ac adnoddau ychwanegol ar gyfer disgyblion â datganiadau AAA, ac ar gyfer rhai disgyblion yn y cynllun gweithredu gan yr ysgol (neu'r blynyddoedd cynnar) a mwy.

18 Mae bron i dri chwarter y disgyblion â datganiadau AAA yn cael eu haddysgu mewn ysgolion prif ffrwd hefyd, naill ai mewn dosbarthiadau prif ffrwd neu mewn unedau arbennig. Mae gweddill y disgyblion sydd â datganiadau AAA yn cael eu haddysgu

mewn ysgolion arbennig a gynhelir, mewn ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion ac mewn mannau eraill heblaw am yn yr ysgol.

*(Disgyblion â Datganiadau Anghenion Addysgol Arbennig, Ionawr 2006: SDR 75/2006, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Mehefin 2006)*

19 Mae'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) yn darparu'r ffynhonnell wybodaeth allweddol am nifer y disgyblion ag AAA mewn ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd ac ysgolion arbennig a gynhelir, natur eu hanghenion a'r lefel cymorth fel y'i diffinnir yn y Cod Ymarfer AAA.

20 Ym mis Ionawr 2006, cyfran y disgyblion â phob math o angen ar y cofrestri AAA mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru oedd:

| **Math o angen** | **Is-fath o angen** | **Canran yr holl ddisgyblion ag AAA** |
|---|---|---|
| **Gwybyddiaeth a dysgu** | | **55%** |
| | Anawsterau dysgu penodol | 12.5% |
| | Anawsterau dysgu canolig | 39.2% |
| | Anawsterau dysgu difrifol | 2.5% |
| | Anawsterau dysgu dwys a lluosog | 0.8% |
| **Datblygiad ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol** | | **11.6%** |
| **Cyfathrebu a rhyngweithio** | | **11%** |
| | Anawsterau siarad, iaith a chyfathrebu | 8.9% |
| | Anhwylder sbectrwm awtistig | 2.1% |
| **Synhwyrol a/neu gorfforol** | | **5%** |
| | Nam ar y clyw | 1.3% |
| | Nam ar y golwg | 0.7% |
| | Nam amlsynnwyr | 0.1% |
| | Anawsterau corfforol a meddygol | 2.9% |
| **Arall (annosbarthedig)** | | **17.4%** |

*(Uned Ddata Llywodraeth Leol Cymru, Hydref 2006)*

21 Mae rhai mathau o angen yn digwydd yn llawer amlach nag eraill, ac fe'u gelwir yn anghenion mynych. Mae anghenion mynych yn cynnwys:

- anawsterau dysgu canolig;
- anawsterau dysgu penodol;
- datblygiad ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol; ac

- anawsterau siarad, iaith a chyfathrebu.

22 Mae disgyblion â'r mathau hyn o anghenion yn cael eu haddysgu mewn ysgolion prif ffrwd yn gyffredinol, er bod ysgolion arbennig, gan gynnwys y rheini yn y sector annibynnol, yn gwneud darpariaeth yn ogystal ar gyfer disgyblion sydd â lefelau angen uchel iawn yn y meysydd hyn.

23 Mae mathau eraill o angen yn digwydd yn gymharol anaml, ac fe'u gelwir yn anghenion prin. Mae ysgolion prif ffrwd yn aml yn darparu ar gyfer disgyblion sydd â'r mathau canlynol o anghenion prin:

- anawsterau corfforol a meddygol;
- Syndrom Asperger (math o anhwylder sbectrwm awtistig);
- nam ar y clyw; a
- nam ar y golwg.

24 Mae ysgolion arbennig yn fwy tebygol o ddarparu ar gyfer disgyblion â'r lefelau mwyaf difrifol o'r anghenion hyn, a hefyd ar gyfer disgyblion ag:

- anhwylder sbectrwm awtistig (gydag anghenion dysgu/ymddygiad ychwanegol);
- anawsterau dysgu difrifol;
- anawsterau dysgu dwys a difrifol; a
- nam amlsynnwyr.

**Darpariaeth ôl-16**

25 Mae pobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig yn cael mynediad i ystod lawn y ddarpariaeth ôl-16 yn yr un modd â'r holl ddysgwyr eraill. Mae rhai yn dewis parhau â'u haddysg neu hyfforddiant mewn chweched dosbarth ysgol. Mae rhai eraill yn trosglwyddo i golegau AB cyffredinol neu arbennig, i ddysgu yn y gwaith neu i ddarpariaeth gofal nad yw'n cynnwys addysg neu hyfforddiant o gwbl.

26 Mae'r Cod Ymarfer AAA yn parhau'n gymwys i ddysgwyr 16 i 19 oed sy'n cael eu haddysgu yn y chweched dosbarth mewn ysgolion. Fodd bynnag, nid yw'n gymwys i ddysgwyr mewn mathau eraill o addysg a hyfforddiant ôl-16, fel colegau addysg bellach a dysgu yn y gwaith. Fel arfer mae'r darparwyr hyn yn defnyddio'r termau 'anghenion dysgu ychwanegol' a/neu 'anawsterau ac anableddau dysgu' yn lle 'anghenion addysgol arbennig'. Nid yw'n ofynnol i awdurdodau addysg lleol gynnal datganiadau AAA ar gyfer disgyblion 16 oed a hŷn pan fyddant yn gadael yr ysgol.

## Cefndir

27 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymroi i'r saith nod craidd a nodir yn 'Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau' ym mis Ionawr 2004. Y rhain yw y dylai holl blant a phobl ifanc Cymru:

- gychwyn bywyd yn dda;
- gael ystod gynhwysfawr o gyfleoedd addysg a dysgu;
- mwynhau'r iechyd gorau posib, a rhyddid oddi wrth gamdriniaeth, erledigaeth a cham-fanteisio;
- cael mynediad i weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliant;
- cael eu gwrando, eu trin â pharch a chael cydnabyddiaeth i'w hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol;
- cael cartref a chymuned ddiogel sy'n cefnogi lles corfforol ac emosiynol; a
- pheidio â bod dan anfantais oherwydd tlodi.

28 Mae Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith (Llywodraeth Cynulliad Cymru, Hydref 2006) yn amlinellu'r strategaeth a'r blaenoriaethau ar gyfer cyflawni'r nodau hyn trwy ddarparu addysg a hyfforddiant ansawdd uchel. Mae'r cyngor hwn yn darparu tystiolaeth i gefnogi'r ymrwymiad i hyrwyddo cynhwysiad mewn addysg a dysgu, fel y nodir yn y ddogfen bolisi allweddol hon.

29 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu cyflwyno Fframwaith Polisi a Pherfformiad Cynhwysiad sy'n sicrhau bodloni anghenion yr holl ddysgwyr (gan gynnwys anghenion plant anabl) yn effeithiol, bod athrawon a staff cymorth mewn ysgolion yn meddu ar y medrau angenrheidiol i gefnogi ystod amrywiol o anghenion, bod cydraddoldeb mynediad i ystod o wasanaethau cymorth, a bod mesurau canlyniadau cadarn ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.

## Prif ganfyddiadau

30 Mae arfarnu canlyniadau ar gyfer dysgwyr ag AAA yn broses gymhleth iawn y mae angen iddi, er mwyn bod yn effeithiol, ystyried gwybodaeth o lawer o fathau ac o lawer o ffynonellau. Er bod yr adroddiad hwn yn nodi nifer o enghreifftiau o arfer dda sy'n datblygu, mae llawer i'w wneud eto i greu system unedig i gefnogi arfarnu canlyniadau ar gyfer dysgwyr ag AAA ar draws Cymru.

**Fframwaith ar gyfer arfarnu canlyniadau**

31 Mae fframwaith cydlynol i arfarnu canlyniadau ar gyfer dysgwyr ag AAA yn gofyn am yr elfennau canlynol:

- set ddata gyffredin o ganlyniadau dysgu cytunedig;
- mesurau dilys a dibynadwy o gynnydd ar gyfer yr holl ganlyniadau dysgu;
- gweithdrefnau effeithiol a systematig ar gyfer dadansoddi a dehongli gwybodaeth am ganlyniadau dysgu ar gyfer disgyblion unigol, ysgolion, awdurdodau lleol ac ar draws Cymru;
- gwybodaeth fanwl am natur y ddarpariaeth sy'n cael ei gwneud i gyflawni pob un o'r canlyniadau cytunedig; a
- gwybodaeth gywir am gostau'r holl fathau o ddarpariaeth addysgol arbennig.

32 I fod yn effeithiol, dylai fframwaith ar gyfer arfarnu canlyniadau:

- geisio mesur canlyniadau dysgu sydd o werth, yn hytrach na rhoi gwerth ar y canlyniadau hynny sy'n hawdd eu mesur yn unig;
- cynnwys mesurau cywir a dibynadwy sy'n cydnabod cyrhaeddiad, cynnydd a chyflawniad disgyblion mewn ystod eang o ganlyniadau dysgu;
- ystyried canlyniadau tymor hwy darpariaeth addysgol;
- ystyried yr amrywiaeth yn natur a difrifoldeb AAA; a
- chysylltu'n agos â fframweithiau arolygu Estyn ar gyfer darparwyr addysg ac awdurdodau lleol er mwyn cynorthwyo hunanarfarnu.

33 Ar gyfer disgyblion ag AAA, mae'n bwysig yn arbennig i farnu cynnydd a chyflawniad yn hytrach na chyrhaeddiad crai. Mae barnau cyflawniad yn cydnabod cynnydd a datblygiad disgyblion o fan cychwyn penodol, o'i gymharu â'r cyd-destun y maent yn dysgu ynddo. Cyrhaeddiad yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio canlyniadau wedi'u hasesu yn nhermau mesurau allanol, fel y rheini sy'n arwain at gymwysterau cydnabyddedig neu lefelau Cwricwlwm Cenedlaethol.

34 Dylai barnau am ganlyniadau dysgu ar gyfer disgyblion ag AAA ystyried eu cyflawniadau mewn perthynas â:

- chyrraedd nodau dysgu cytunedig;
- gwneud cynnydd mewn dysgu; a
- datblygu medrau personol, cymdeithasol a dysgu.

35 Mae pwysigrwydd cymharol canlyniadau dysgu penodol ar gyfer disgyblion ag AAA yn debygol o wahaniaethu yn ôl natur a difrifoldeb eu hanghenion unigol.

36 Mae rhai o'r canlyniadau mwyaf gwerthfawr yn anodd eu mesur yn union, ac mae hyn yn ei gwneud yn anodd hyd yn oed i gymharu cyflawniadau disgyblion mewn amgylchiadau tebyg.

**Cywirdeb data**

37 Nid yw'r cyfrifiad ysgolion blynyddol ar lefel disgyblion (CYBLD) yn rhoi darlun cwbl gywir neu ddarlun cyflawn o'r holl blant a phobl ifanc yng Nghymru sydd ag AAA. Nid yw ysgolion bob amser yn cofnodi gwybodaeth gywir am ddisgyblion ag AAA, ac nid yw'r cyfrifiad blynyddol yn cynnwys rhai grwpiau dysgwyr allweddol, fel y rheini mewn darpariaeth cyn ysgol neu ddarpariaeth ôl ysgol, y rheini sy'n cael eu haddysg heblaw am yn yr ysgol, a'r rheini yn y sector annibynnol.

38 Cafodd problem data anghywir CYBLD ei nodi yn gynnar yng nghyfnod 1 y gwaith hwn, ac mae Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes wedi gweithredu i fynd i'r afael â'r mater drwy ddiwygio codau data CYBLD a pharatoi arweiniad i ysgolion ac AALlau.

**Arfarnu cynnydd, cyflawniad a chyrhaeddiad: ysgolion**

39 Mae bron yr holl ddisgyblion ag AAA, gan gynnwys tri chwarter yr holl ddisgyblion â datganiadau, mewn ysgolion prif ffrwd. Mae'r disgyblion hyn yn gyffredinol yn cael anawsterau wrth ddysgu medrau sylfaenol llythrennedd, rhifedd a chyfathrebu. Mae anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiad gan rai yn ogystal. Mae ysgolion arbennig, gan gynnwys y rheini yn y sector annibynnol, yn darparu'n gyffredinol ar gyfer disgyblion ag AAA sydd ag anghenion dysgu mwy cymhleth ac ymddygiad heriol.

40 Nid oes meincnodau cenedlaethol y gall awdurdodau ac ysgolion fesur cyrhaeddiad yn eu herbyn mewn perthynas â thargedau'r Cwricwlwm Cenedlaethol ac arholiadau allanol disgyblion ag AAA, â chyrhaeddiad disgyblion ag anghenion tebyg mewn ysgolion tebyg. Mae'r gwaith parhaus i sefydlu mesurau 'gwerth ychwanegol' cynnydd y Cwricwlwm Cenedlaethol yn cynnwys potensial i helpu rhoi sylw i'r mater allweddol hwn mewn perthynas ag AAA mewn ysgolion prif ffrwd.

41 Nid yw gwybodaeth am ganlyniadau dysgu ar gyfer disgyblion ag AAA yn cael ei chrynhoi i fesur effeithiolrwydd cyffredinol y ddarpariaeth. Mae ysgolion prif ffrwd yn cadw ystod eang iawn o wybodaeth am gynnydd a chyflawniad disgyblion unigol ag AAA mewn perthynas â thargedau dysgu pwysig, fel gwella llythrennedd neu

ymddygiad. Mae cydlynwyr anghenion addysgol arbennig (Cydlynwyr AAA) a staff arbenigol mewn gwasanaethau cymorth AAA awdurdodau yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i gynllunio ac arfarnu darpariaeth ar gyfer disgyblion unigol. Fodd bynnag, nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei choladu'n aml i arfarnu'r effaith ar ganlyniadau dysgu ar gyfer grwpiau o ddisgyblion ag AAA neu ar draws yr ysgol gyfan.

42 Mae'n anodd iawn, ac yn amhriodol yn aml, i gymharu'r canlyniadau ar gyfer disgyblion â mathau prin iawn o AAA mewn ysgolion gwahanol. Serch hynny, mae llawer o ysgolion arbennig ac unedau prif ffrwd ag ynddynt adnoddau yn defnyddio gwybodaeth am gynnydd disgyblion yn dda i gynorthwyo hunanarfarnu ysgolion.

43 Mae'r broses arfarnu canlyniadau bron bob amser wedi gwreiddio'n dda yng ngwaith ysgolion arbennig o ddydd i ddydd, lle mae'r broses barhaus o 'asesu ar gyfer dysgu' yn adeiladu darlun manwl iawn o gynnydd a chyflawniadau disgyblion unigol. Ar adegau allweddol, fel adolygiadau blynyddol a throsglwyddo i'r cam dysgu nesaf, mae ysgolion arbennig yn dod â'r wybodaeth hon ynghyd i roi crynodeb ac arfarniad o gynnydd cyffredinol ar gyfer disgyblion unigol.

### Trosglwyddo

44 Mae llawer o wybodaeth werthfawr am ganlyniadau dysgu yn cael ei cholli ar bwyntiau trosglwyddo rhwng cyfnodau addysg, er enghraifft rhwng y blynyddoedd cynnar a rhwng darpariaeth yr ysgol â darpariaeth ôl-16. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd iawn arfarnu effaith ymyrraeth gynnar a/neu arbenigol.

45 Nid yw ysgolion, colegau a darparwyr eraill yn cael gwybodaeth gywir ac amserol bob tro am gyflawniadau blaenorol dysgwyr ag AAA. Weithiau nid ydynt yn cael unrhyw wybodaeth o gwbl am fod ysgolion ac awdurdodau yn colli trywydd y dysgwr. Mae hyn yn fwy tebygol o ddigwydd lle mae dysgwyr yn symud o amgylch yn aml, ac mae'n effeithio'n arbennig ar rai o'r dysgwyr mwyaf agored i niwed sydd ag AAA, gan gynnwys disgyblion wedi'u gwahardd, plant y gofelir amdanynt, troseddwyr ifanc a dysgwyr anabl sy'n symud o ddarpariaeth ysgol i ddarpariaeth ôl-16.

46 Nid oes unrhyw gyswllt rhwng data CYBLD a Chofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (CDGOC), ac mae hyn yn ei gwneud yn anodd iawn i Lywodraeth Cynulliad Cymru olrhain y canlyniadau tymor hwy ar gyfer disgyblion ag AAA yn dilyn eu trosglwyddiad o'r ysgol i addysg neu hyfforddiant ôl-16.

### Arfarnu cynnydd, cyflawniad a chyrhaeddiad: AALlau

47 Nid yw'r un o'r deg awdurdod y gwnaed arolwg ohonynt yn cadw cronfa ddata unedig o'r holl ddisgyblion ag AAA y maent yn gwneud darpariaeth a ariennir ar eu cyfer. Mae rhan fwyaf yr awdurdodau hyn yn gwneud cynnydd da o ran gwella ansawdd a hygyrchedd gwybodaeth sylfaenol am ddisgyblion unigol. Fodd bynnag, mae'r data sy'n cael ei gadw ar hyn o bryd yn anghyflawn, ac yn anghywir yn aml.

48 Mae awdurdodau yn ymwybodol iawn o ansawdd cyfyngedig data am ganlyniadau ar gyfer disgyblion ag AAA, ac maent yn datblygu'u ffyrdd eu hunain o fynd i'r afael â hyn. Mae'r astudiaethau achos yn atodiad 4 yn disgrifio arfer dda sy'n datblygu

mewn rhai awdurdodau. Mae gan ran fwyaf yr awdurdodau eraill lawer mwy i'w wneud o hyd.

49 Fel arfer mae set ddibynadwy o ddata gan awdurdodau am gyraeddiadau disgyblion mewn perthynas â phynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol, ac am y cynnydd maent yn ei wneud mewn rhai medrau pwysig, gan gynnwys llythrennedd a rhifedd. Mae'r diffyg gwybodaeth wedi'i meincnodi yn ei gwneud yn anodd iawn i awdurdodau ddefnyddio'r data hwn i gynorthwyo arfarnu effaith y ddarpariaeth.

50 Prin iawn y mae awdurdodau yn defnyddio gwybodaeth allweddol am bresenoldeb ac ymddygiad i ganfod pa mor dda mae grwpiau o ddisgyblion ag AAA yn gwneud, o gymharu â disgyblion eraill.

51 Nid yw ysgolion ac awdurdodau yn cynnwys disgyblion a rhieni'n ddigonol wrth arfarnu canlyniadau dysgu.

52 Nid oes gwybodaeth gydlynol i ddangos a yw'r ddarpariaeth y mae ysgolion ac awdurdodau yn ei gwneud ar gyfer disgyblion ag AAA yn eu helpu i gyfranogi mewn gweithgareddau cymuned, cymdeithasol a dysgu ehangach, neu a ydynt yn cyflawni llwyddiant tymor hwy fel oedolion ifanc.

**Mapio darpariaeth a nodi costau**

53 Nid oes gan awdurdodau drosolwg cynhwysfawr o'r ddarpariaeth maent yn ei gwneud, nag o gostau'r ddarpariaeth honno, ar gyfer yr holl ddisgyblion ag AAA. Mae hyn yn golygu nad yw ysgolion, awdurdodau a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gallu cysylltu gwybodaeth am ddarpariaeth gyda gwybodaeth am ganlyniadau a chostau dysgu at ddibenion arfarnu. Mae hefyd yn ei gwneud yn anodd cymharu'r canlyniadau ar gyfer dysgwyr mewn ysgolion ac awdurdodau gwahanol.

54 Fel arfer mae gan awdurdodau gofnodion da o'r ddarpariaeth maent yn ei gwneud ar gyfer disgyblion unigol yn eu hysgolion eu hunain a gynhelir. Fodd bynnag, mae diffygion yn y modd y mae awdurdodau'n monitro ac yn arfarnu darpariaeth AAA ar gyfer rhai o'r disgyblion mwyaf agored i niwed, gan gynnwys y rheini sy'n cael eu haddysgu heblaw am yn yr ysgol, mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdodau eraill ac mewn ysgolion annibynnol.

**Cysylltiadau gydag hunanarfarnu ysgolion**

55 Mae awdurdodau yn rhoi cyfeiriad clir a chymorth cyffredinol i ysgolion ar gyfer asesu, gosod targedau a hunanarfarnu. Mae rhai awdurdodau yn dechrau darparu arweiniad a hyfforddiant i ysgolion ar ddefnyddio data i arfarnu canlyniadau dysgu ar gyfer grwpiau disgyblion wedi'u targedu.

## Argymhellion

**Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:**

A1 mewn partneriaeth ag awdurdodau addysg lleol, datblygu cofnod unedig o'r holl ddysgwyr sydd ag anghenion addysgol arbennig (AAA) sy'n cynnwys manylion eu hanghenion arbennig a'r math o ddarpariaeth sy'n cael ei gwneud i fodloni'r anghenion hynny;

A2 cynyddu cwmpas y cyfrifiad ysgolion blynyddol ar lefel disgyblion (CYBLD) er mwyn iddo gipio gwybodaeth am ddisgyblion mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar, y rheini sy'n cael addysg heblaw am yn yr ysgol (EOTAS) a'r rheini y mae awdurdodau yn ariannu darpariaeth ar eu cyfer yn y sector annibynnol;

A3 sefydlu cyswllt rhwng CYBLD a Chofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (CDGOC) fel y gellir olrhain ac arfarnu cynnydd dysgwyr wrth iddynt symud trwy ddarpariaeth ôl-16;

A4 gweithio gydag awdurdodau addysg lleol i sefydlu gweithdrefnau ar gyfer rhannu gwybodaeth a gynhwysir yn CYBLD a'r Gronfa Ddata Genedlaethol Disgyblion (CDdGD) am ddisgyblion ag AAA sy'n mynychu ysgolion a gynhelir y tu allan i'r awdurdod;

A5 gweithio'n agos ag ysgolion ac awdurdodau lleol i wella ansawdd a chysondeb gwybodaeth am ddisgyblion unigol ag AAA;

A6 pennu gofyniad ar awdurdodau lleol a darparwyr i ddarparu gwybodaeth flynyddol am y cynnydd sy'n cael ei wneud gan ddysgwyr ag AAA wrth gyflawni'u targedau dysgu unigol, yn enwedig y rheini mewn cyfathrebu, ymddygiad, llythrennedd, rhifedd, medrau meddwl, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) a dwyieithrwydd, lle bo hynny'n briodol;

A7 mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, sefydlu meincnodau i farnu cyrhaeddiad a chynnydd yn eu herbyn mewn pynciau a medrau allweddol ar gyfer dysgwyr o alluoedd gwahanol ac anghenion gwahanol;

A8 mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, datblygu ffyrdd dibynadwy o fesur effaith darpariaeth ar ddatblygiad cymdeithasol ac emosiynol dysgwyr, eu hymddygiad, cynhwysiad a'u cyfranogiad mewn gweithgareddau prif ffrwd; a

A9 sefydlu ffyrdd o arfarnu effaith y ddarpariaeth AAA ar ganlyniadau tymor hwy, gan gynnwys cyflawniadau mewn addysg bellach ac addysg uwch, hyfforddiant, cyflogaeth a byw'n annibynnol, fel y bydd yn briodol.

**Dylai Awdurdodau Addysg Lleol:**

A10 weithio'n agos ag ysgolion i wella ansawdd a chysondeb gwybodaeth am ddisgyblion unigol ag AAA sy'n cael ei darparu yn y cyfrifiad blynyddol;

A11 gwneud mwy o ddefnydd o ddata yn y Gronfa Ddata Genedlaethol Disgyblion i gyfrannu at arfarnu canlyniadau ar gyfer disgyblion ag AAA mewn asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol ac arholiadau allanol;

A12 gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu cofnod unedig o ddarpariaeth a chynnydd ar gyfer yr holl ddisgyblion ag AAA, gan gynnwys y rheini mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar, mewn ysgolion annibynnol ac mewn darpariaeth EOTAS;

A13 gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion i fonitro ac arfarnu'r cynnydd sy'n cael ei wneud gan ddisgyblion ag AAA wrth gyflawni'u targedau dysgu unigol, yn enwedig y rheini mewn cyfathrebu, ymddygiad, llythrennedd, rhifedd, medrau meddwl, TGCh a dwyieithrwydd, lle bo hynny'n briodol;

A14 gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion y tu allan i'r sir ac AALlau eraill i wella monitro ac arfarnu canlyniadau ar gyfer disgyblion sy'n cael eu haddysgu mewn ysgolion y tu allan i'r awdurdod cartref;

A15 gwneud yn siwr, pan fydd disgyblion ag AAA, ac yn arbennig y rheini sy'n blant y gofelir amdanynt, yn symud i awdurdod newydd neu i ysgol annibynnol, bod cofnodion priodol yn cael eu trosglwyddo ar unwaith i'r awdurdod newydd neu'r ysgol annibynnol;

A16 darparu hyfforddiant i ysgolion i'w helpu i ddefnyddio data, gan gynnwys gwybodaeth feincnod lle bydd ar gael, yn fwy effeithiol i arfarnu canlyniadau dysgu ar gyfer disgyblion ag AAA;

A17 datblygu dangosyddion lleol clir a phenodol i fesur canlyniadau dysgu ar gyfer grwpiau disgyblion penodol ag AAA, a defnyddio'r dangosyddion hyn i arfarnu darpariaeth sy'n cael ei gwneud gan ysgolion a chan wasanaethau cymorth canolog; ac

A18 ymgynghori'n ehangach â rhieni, gofalwyr a disgyblion wrth arfarnu darpariaeth addysgol a chymorth ychwanegol ar gyfer disgyblion ag AAA.

**Dylai ysgolion:**

A19 wella cywirdeb gwybodaeth am ddisgyblion ag AAA sy'n cael ei darparu i awdurdodau lleol ac i Lywodraeth Cynulliad Cymru fel rhan o'r cyfrifiad blynyddol;

A20 cymryd Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn a'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn fel man cychwyn ar gyfer dadansoddi canlyniadau ar gyfer disgyblion ag AAA fel rhan o hunanarfarnu;

A21 defnyddio data, gan gynnwys gwybodaeth feincnod lle bydd ar gael, yn fwy effeithiol i arfarnu canlyniadau dysgu ar gyfer disgyblion ag AAA;

A22 dod â gwybodaeth ynghyd am y cynnydd sy’n cael ei wneud gan ddisgyblion unigol ag AAA wrth gyflawni’u targedau dysgu unigol i arfarnu effaith darpariaeth ar gyfer grwpiau o ddisgyblion, ac ar draws yr ysgol;

A23 cynnwys gwybodaeth am ganlyniadau dysgu mewn medrau personol a chymdeithasol allweddol, presenoldeb, ymddygiad, dilyniant a chyfranogiad mewn gweithgareddau ehangach wrth arfarnu canlyniadau ar gyfer dysgwyr ag AAA;

A24 ymgynghori’n ehangach â rhieni, gofalwyr a disgyblion er mwyn arfarnu effaith darpariaeth a chymorth ychwanegol ar gyfer disgyblion ag AAA; a

A25 gwneud yn siwr, pan fydd disgyblion ag AAA yn trosglwyddo i ysgol wahanol a gynhelir neu ysgol annibynnol wahanol, i uned cyfeirio disgyblion neu i goleg, bod y cofnodion priodol yn cael eu trosglwyddo ar unwaith i’r darparwr newydd.

## Arfarnu canlyniadau ar gyfer dysgwyr ag AAA: fframwaith

56 Roedd Cyfnod 1 y gwaith hwn yn cynnwys ymgynghori ag ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys cynrychiolwyr o ysgolion, awdurdodau addysg lleol ac aelodau Grŵp Cynghori Cymru ar AAA, ynghyd ag adolygiad o lenyddiaeth berthnasol. Nododd y gwaith hwn nodweddion allweddol fframwaith effeithiol ar gyfer arfarnu canlyniadau ar gyfer dysgwyr ag AAA, ynghyd â'r prif egwyddorion a ddylai danategu fframwaith o'r fath.

57 Mae arfarnu canlyniadau ar gyfer dysgwyr ag AAA yn broses cymhleth iawn y mae angen iddi, i fod yn effeithiol, ystyried gwybodaeth o lawer o fathau ac o lawer o ffynonellau. Mae fframwaith cydlynol yn gofyn am yr elfennau canlynol:

- set ddata gyffredin o ganlyniadau dysgu cytunedig;
- mesurau dilys a dibynadwy o gynnydd ar gyfer yr holl ganlyniadau dysgu;
- gweithdrefnau effeithiol a systematig ar gyfer dadansoddi a dehongli gwybodaeth am ganlyniadau dysgu ar gyfer disgyblion unigol, ysgolion ac awdurdodau lleol ac ar draws Cymru;
- gwybodaeth fanwl am natur y ddarpariaeth sy'n cael ei gwneud er mwyn cyflawni pob un o'r canlyniadau cytunedig; a
- gwybodaeth gywir am gostau'r holl ddarpariaeth addysgol arbennig.

*(Framework for Inclusive Education - Data Profiling Project: London SEN Regional Partnership, 2004)*

58 Cytunodd rhanddeiliaid y dylai'r fframwaith:

- geisio mesur canlyniadau dysgu sydd o werth, yn hytrach na rhoi gwerth ar y canlyniadau hynny sy'n hawdd eu mesur yn unig;
- cynnwys mesurau cywir a dibynadwy sy'n cydnabod cyrhaeddiad, cynnydd a chyflawniad disgyblion mewn ystod eang o ganlyniadau dysgu;
- ystyried canlyniadau tymor hwy darpariaeth addysgol;
- ystyried yr amrywiaeth yn natur a difrifoldeb AAA;
- cynorthwyo hunanarfarnu mewn ysgolion ac awdurdodau lleol; a
- chysylltu'n agos â fframweithiau arolygu Estyn ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol.

## Pa mor dda yw ein data presennol ar ddysgwyr ag AAA?

59 Er mwyn arfarnu canlyniadau ar gyfer dysgwyr ag AAA, mae'n hanfodol dechrau drwy nodi'n gywir natur a difrifoldeb anghenion disgyblion unigol, ac i wybod pa fath o ddarpariaeth sy'n cael ei gwneud ar eu cyfer. Dim ond bryd hynny y bydd modd olrhain y cynnydd sy'n cael ei wneud gan bob dysgwr a chymharu'r cynnydd sy'n cael ei wneud gan ddysgwyr mewn gwahanol leoliadau, ysgolion ac ardaloedd gwahanol o Gymru.

60 Roedd Cyfnod 1 y gwaith yn cynnwys ymchwiliad i'r graddau y mae ysgolion ac AALlau yn rhoi gwybodaeth gywir i Lywodraeth Cynulliad Cymru am ddysgwyr ag AAA, drwy'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) sy'n bwydo i'r Gronfa Ddata Genedlaethol Disgyblion.

**CYBLD**

61 CYBLD yw'r cyfrifiad blynyddol sy'n cael ei gwblhau bob mis Ionawr gan yr holl ysgolion a gynhelir yng Nghymru. Mae CYBLD yn cynnwys gwybodaeth sylfaenol am ddisgyblion unigol, gan gynnwys eu rhyw, grŵp blwyddyn, statws AAA ac ethnigrwydd. Mae data CYBLD yn rhan o'r wybodaeth am lefel disgyblion yn y Gronfa Ddata Genedlaethol Disgyblion.

**Cronfa Ddata Genedlaethol Disgyblion**

62 Mae'r Gronfa Ddata Genedlaethol Disgyblion (CDdGD) yn dod â gwybodaeth ynghyd o CYBLD â data Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol a chanlyniadau arholiadau allanol. Mae'r CDdGD yn galluogi rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys darparwyr, awdurdodau a Llywodraeth Cynulliad Cymru, i ddadansoddi gwybodaeth am gyrhaeddiad disgyblion yng Nghymru. Mae'n brif ffynhonnell gwybodaeth am lefel disgyblion, ac, o bosibl, yn erfyn pwerus iawn i gynorthwyo dadansoddi data ac arfarnu canlyniadau ar gyfer dysgwyr o oed ysgol.

63 Gall ysgolion, awdurdodau lleol a defnyddwyr awdurdodedig eraill gael mynediad i'r CDdGD yn electronig yn www.NPD-wales.gov.uk.

**Ansawdd data AAA yn CYBLD**

64 Yn y datganiad CYBLD blynyddol mae gofyniad ar ysgolion i ddarparu gwybodaeth, am bob disgybl ag AAA, am y math o angen arbennig ac a yw'r disgybl yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol, gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad AAA.

65 Er bod data CYBLD yn fan cychwyn defnyddiol ar gyfer nodi dysgwyr ag AAA yng Nghymru, nid yw'n rhoi darlun cyflawn neu gwbl gywir o'r holl ddysgwyr hyn. Y rheswm am hyn yw:

- nid yw ysgolion yn cofnodi gwybodaeth gywir am ddisgyblion ag AAA; ac

- nid yw'r cyfrifiad blynyddol yn cynnwys gwybodaeth am ddisgyblion ag AAA sy'n cael eu haddysgu y tu allan i'r system ysgolion a gynhelir.

**Cywirdeb data**

66 Yn ystod cyfnod 1 y gwaith hwn, mynegodd rhanddeiliaid yn Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Uned Ddata Llywodraeth Leol bryder ynghylch y lefelau uchel o anghywirdeb mewn datganiadau CYBLD ysgolion yn gyffredinol, ac yn arbennig ynghylch y wybodaeth ansawdd gwael am ddisgyblion ag AAA. Mae'r anghywirdeb hwn yn rhwystr mawr i arfarnu canlyniadau ar gyfer y dysgwyr hyn, gan y gall rwystro cydweddu canlyniadau mewn asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol ac arholiadau allanol yn ddiweddarach ar gyfer y disgyblion hyn o fewn y CDdGD. Mae hyn yn ei dro yn golygu nad oes gan yr CDdGD gofnod o gyrhaeddiad y disgyblion hyn, ac nid oes posibilrwydd mesur na chymharu'r cynnydd mae disgyblion yn ei wneud wrth iddynt symud drwy gyfnodau allweddol y Cwricwlwm Cenedlaethol.

67 Mae nifer o anghywirdebau yn y data mae ysgolion yn ei nodi yn y cofnod CYBLD. Mewn perthynas â disgyblion ag AAA, nid yw ysgolion bob amser yn darparu gwybodaeth gywir am y math o angen neu am y lefel y mae disgyblion yn cael cymorth arni, yn unol â'r Cod Ymddygiad AAA. Y rheswm am hyn fel arfer yw nad yw ysgolion yn gwirio bod y data maent yn ei gofnodi yn y cyfrifiad blynyddol yn cydweddu â'r wybodaeth yng nghofnodion AAA unigol disgyblion.

68 Er enghraifft, yn y ddwy flynedd diwethaf, mae bron i bumed o'r holl gofnodion AAA (rhyw 16,000 o ddisgyblion bob blwyddyn) wedi'u cofnodi ag anghenion 'eraill', gan ei gwneud yn amhosibl i nodi natur eu hanghenion. Yn y datganiadau CYBLD ar gyfer 2006, roedd y categori 'arall' yn cynnwys 424 o ddisgyblion â datganiadau AAA, y byddai'r prif fath(au) o angen wedi'i nodi'n glir. Yn yr un flwyddyn, roedd y datganiadau'n cynnwys 1,743 o ddisgyblion yn cael darpariaeth AAA er bod ysgolion wedi dweud nad oedd y categori AAA yn gymwys i'r disgyblion hyn.

*(Uned Ddata Llywodraeth Leol Cymru: Data cryno CYBLD, 2005 a 2006)*

**Cwmpas data**

69 Nid yw CYBLD yn rhoi cofnod cyflawn o'r holl ddysgwyr ag AAA. Nid yw'n cipio gwybodaeth am ddysgwyr sydd:

- o oed cyn ysgol (ac eithrio'r rheini sy'n mynychu ysgolion meithrin a gynhelir neu ddosbarthiadau meithrin mewn ysgolion cynradd a gynhelir);
- mewn ysgolion annibynnol (gan gynnwys ysgolion arbennig annibynnol);
- yn cael addysg heblaw am yn yr ysgol, gan gynnwys, er enghraifft, y rheini sy'n cael eu haddysgu mewn unedau cyfeirio disgyblion, sy'n cael eu haddysgu adref gan eu rhieni neu'r rheini sydd wedi'u 'colli' o'r system; neu
- mewn darpariaeth ôl-16 heblaw am yn y chweched dosbarth mewn ysgolion.

70 Hefyd, mae'r wybodaeth yn CYBLD ar gyfer disgyblion ag AAA sy'n cael eu haddysgu mewn ysgolion a gynhelir y tu allan i'r sir yn cael ei chynnwys yn y ffigurau sydd wedi'u cyfuno ar gyfer yr awdurdod sy'n cynnal eu hysgol, ond nid ar gyfer eu hawdurdod cartref. Mae hyn yn cyfyngu gwerth y data CYBLD ac CDdGD ar gyfer dadansoddi ar lefel AALl, ac ar gyfer dadansoddi ar lefel Cymru gyfan lle mae lleoliadau allan o'r sir y tu allan i Gymru.

71 Mae'r codau data CYBLD presennol yn cipio gwybodaeth am nifer y disgyblion sy'n cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol, gweithredu gan yr ysgol a mwy a chyda datganiad AAA.[1] Fodd bynnag, nid yw'r codau hyn yn fodd dibynadwy mwyach o nodi difrifoldeb anghenion disgyblion, gan y gall disgyblion mewn cynllun gweithredu gan yr ysgol mewn un awdurdod fod ag anghenion sydd o lefel debyg i'r disgyblion hynny sydd â datganiadau mewn awdurdod arall.

*(Arfer orau wrth ddatblygu datganiadau anghenion addysgol arbennig ac ysgolion yn cyflwyno'r camau y cytunwyd arnynt: Estyn, 2004)*

**Gwella cywirdeb data AAA yn CYBLD**

72 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi tynnu sylw ysgolion ac awdurdodau addysg lleol at yr angen i wella cywirdeb y cofnod ar gyfer yr holl ddisgyblion, ac yn arbennig ar gyfer y rheini ag AAA.

73 Yn ystod cyfnod 1, gweithiodd Estyn gyda grŵp bychan o swyddogion awdurdod lleol i ddatblygu a chynnal peilot o arweiniad ar gyfer ysgolion ac AALlau sydd wedi'i gynllunio i'w helpu i wella cywirdeb a gwerth cofnodion data yn y CYBLD.

74 I fynd law yn llaw â'r arweiniad hwn, mae'r Cynulliad wedi diwygio codau data CYBLD ac mae ar fin ymgynghori ag ysgolion ac awdurdodau addysg lleol ynghylch y ddogfen arweiniad newydd. Mae'r codau AAA CYBLD diwygiedig a'r arweiniad:

- yn egluro'r mathau gwahanol o AAA;
- yn dileu'r opsiwn 'arall' o'r maes data;
- yn ymestyn cofnodi'r categori Cod Ymarfer AAA i gynnwys gweithredu yn y blynyddoedd cynnar a gweithredu yn y blynyddoedd cynnar a mwy;
- yn cyflwyno meysydd data newydd i gipio gwybodaeth am y lefel ddarpariaeth sy'n cael ei gwneud, mewn perthynas â'r cwricwlwm a dulliau addysgu, grwpio a chymorth, adnoddau arbenigol a chyngor ac asesu; ac
- yn darparu enghreifftiau sydd wedi'u gweithio mewn 'bywyd go iawn' i ysgolion i ddangos a chynorthwyo'r broses gwneud penderfyniadau a chofnodi data.

[1] Mae'r Cod Ymarfer AAA yn diffinio cymorth ar lefel cynllun gweithredu gan yr ysgol fel ymyrraeth sy'n ychwanegol at, neu'n wahanol i, hynny a ddarperir fel rhan o gynnig a strategaethau cwricwlwm gwahaniaethol arferol ysgol. Yn y cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy, bydd gwasanaethau cymorth allanol yn darparu cyngor mwy arbenigol i'r ysgol, ac, mewn rhai achosion, gall ddarparu cymorth uniongyrchol i'r disgybl. Mae disgyblion â datganiadau AAA yn cael cyfuniad o gymorth gan ysgolion, AALlau ac weithiau gan asiantaethau eraill hefyd.

75 Mae Atodiad 2 yn egluro prif nodweddion mathau gwahanol o AAA ac mae wedi'i gymryd o'r ddogfen arweiniad CYBLD/AAA ddiwygiedig ar gyfer ysgolion ac AALlau.

**Dysgwyr mewn darpariaeth ôl-16**

76 Mae Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (CDGOC) yn darparu'r brif ffynhonnell wybodaeth am ddysgwyr mewn colegau addysg bellach, dysgu yn y gwaith a lleoliadau dysgu yn y gymuned. Mae CDGOC yn cynnwys manylion dysgwyr sydd ag anawsterau dysgu ac anableddau, y byddai llawer ohonynt wedi bod yn cael cymorth AAA mewn ysgolion yn flaenorol.

77 Nid oes unrhyw gyswllt ar hyn o bryd rhwng cofnodion CYBLD a CDGOC, ac mae hyn yn ei gwneud yn anodd iawn olrhain y canlyniadau tymor hwy ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig ar ôl iddynt drosglwyddo o'r ysgol i addysg neu hyfforddiant ôl-16. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth i ganfod ffordd o drosglwyddo data o CYBLD i CDGOC a fydd yn bodloni gofynion y Ddeddf Diogelu Data.

## Beth yw'r canlyniadau dysgu mwyaf gwerthfawr, a sut gellir mesur y rhain?

78 Yn ystod cyfnod 1 y gwaith hwn, cytunodd rhanddeiliaid y dylai'r fframwaith:

- geisio mesur canlyniadau dysgu sydd o werth, yn hytrach na rhoi gwerth ar y canlyniadau hynny sy'n hawdd eu mesur yn unig;
- cynnwys mesurau cywir a dibynadwy sy'n cydnabod cyrhaeddiad, cynnydd a chyflawniad disgyblion mewn ystod eang o ganlyniadau dysgu;
- ystyried canlyniadau tymor hwy darpariaeth addysgol;
- ystyried yr amrywiaeth yn natur a difrifoldeb AAA;
- cynorthwyo hunanarfarnu mewn ysgolion ac awdurdodau lleol; a
- chysylltu'n agos â fframweithiau arolygu Estyn ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol.

**Arolygu a hunanarfarnu canlyniadau dysgu**

79 Mae Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn yn gymwys i arolygu'r holl ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Yn gynyddol, mae ysgolion a darparwyr ôl-16 yn defnyddio'r fframwaith hwn fel sail ar gyfer hunanarfarnu.

80 Mae Cwestiwn Allweddol 1 y fframwaith arolygu - 'Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?' yn ei gwneud yn ofynnol i arolygwyr arfarnu ac adrodd ar y safonau y mae dysgwyr yn eu cyflawni mewn perthynas ag ystod eang o ganlyniadau. Mae rhagor o fanylion yn Atodiad 3.

**Cyrhaeddiad, cyflawniad a chynnydd**

81 Mae Estyn yn barnu canlyniadau dysgu mewn perthynas â chyflawniad yn hytrach nag yn nhermau cyrhaeddiad crai. Mae barnau cyflawniad yn ystyried lefel cyrhaeddiad a chyfradd cynnydd disgyblion, yn gymharol i'w hoed, gallu, y cyd-destun y maent yn dysgu ynddo a'u man cychwyn unigol ar gyfer dysgu. Cyrhaeddiad yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio canlyniadau wedi'u hasesu yn nhermau mesurau allanol, fel y rheini sy'n arwain at gymwysterau cydnabyddedig neu lefelau Cwricwlwm Cenedlaethol.

82 Mae Arweiniad Estyn ar Arolygu Ysgolion Arbennig ac Unedau Cyfeirio Disgyblion (2004) yn esbonio'n glir, wrth farnu cyflawniadau a chynnydd dysgwyr ag AAA:

- mae'n rhaid i arolygwyr ystyried y meini prawf a ddefnyddir i nodi a dewis disgyblion ar gyfer eu darpariaeth arbennig; ac

- nid yw'n briodol yn gyffredinol i gymharu canlyniadau a chyfraddau cadw â chyfartaleddau cenedlaethol a meincnodau lleol a chenedlaethol.

83 Wrth lunio barnau am safonau cyflawniad cyffredinol, mae Estyn yn ystyried pa mor dda y mae dysgwyr:

- yn llwyddo i gyrraedd nodau dysgu cytunedig;
- yn gwneud cynnydd mewn dysgu; ac
- yn datblygu medrau personol, cymdeithasol a dysgu.

84 Mae mesurau llwyddiant mewn **cyrraedd nodau dysgu cytunedig** yn cynnwys safonau cyflawniad mewn:

- gwahanol bynciau a meysydd dysgu;
- bodloni targedau dysgu unigol;
- medrau cyfathrebu;
- medrau mathemategol neu fedrau cymhwyso rhif;
- medrau technoleg gwybodaeth; a
- lle bo'n briodol, gallu dwyieithog.

85 Mae mesurau llwyddiant mewn **cynnydd mewn dysgu** yn cynnwys cyflawniadau mewn:

- caffael gwybodaeth newydd, dealltwriaeth o fedrau a chymhwyso'r rhain i sefyllfaoedd newydd ac anghyfarwydd;
- ymwybyddiaeth a dealltwriaeth dysgwyr o'u cynnydd eu hunain; a
- symud ymlaen at y cyfnod nesaf mewn dysgu.

86 Mae mesurau llwyddiant mewn **medrau personol, cymdeithasol a dysgu allweddol** yn cynnwys cyflawniadau mewn:

- annibyniaeth, datblygu medrau cymdeithasol, ffurfio perthnasoedd effeithiol a dangos agwedd gadarnhaol at ddysgu;
- ymddwyn yn gyfrifol a dangos parth i eraill;
- presenoldeb a phrydlondeb;

- medrau personol, cymdeithasol a datrys problemau, gan gynnwys dysgu annibynnol a chyfranogi ym mywyd a gwaith yr ysgol, coleg neu ddarparwr dysgu arall;

- agweddau ar ddatblygiad personol, moesol, cymdeithasol a datblygiad ehangach, fel gweithio gydag eraill, dangos parch, gofal a chonsyrn am eraill, cymryd cyfrifoldeb personol a dangos gonestrwydd a thegwch;

- ymwybyddiaeth o amrywiaeth mewn cymdeithas, a pharch tuag ato; a

- medrau sy'n ofynnol i gyfranogi'n effeithiol yn y gweithle ac yn y gymuned.

**Canlyniadau gwerthfawr ar gyfer disgyblion ag AAA**

87 Mae'n bwysig bod disgyblion ag AAA yn cael yr un cyfleoedd â disgyblion eraill i gyflawni llwyddiant mewn perthynas â phob un o'r tri math o ganlyniad dysgu a nodir yn fframwaith Estyn ar gyfer CwA1. Fodd bynnag, mae pwysigrwydd cymharol canlyniadau dysgu penodol ar gyfer disgyblion ag AAA yn debygol o wahaniaethu yn ôl natur a difrifoldeb eu hanghenion unigol, fel y dangosir yn yr enghreifftiau canlynol:

- Mae disgyblion sydd ag anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol sy'n gwneud cynnydd mewn ymddygiad, presenoldeb, prydlondeb a medrau personol a chymdeithasol allweddol yn fwy tebygol o wella'u siawns o gael mynediad i addysg neu hyfforddiant prif ffrwd, a chyfranogi ynddynt, ac i lwyddo mewn bywyd fel oedolyn.

- Mae cyflawniad da mewn medrau sylfaenol a medrau allweddol yn galluogi disgyblion sydd ag anawsterau dysgu penodol a chanolig i lwyddo mewn meysydd dysgu eraill, i gyfranogi'n llawnach ym mywyd yr ysgol ac i symud ymlaen i'r cyfnod dysgu nesaf.

- Mae disgyblion sydd ag anhwylder sbectrwm awtistig sy'n gwella'u medrau ymdeithasol a chyfathrebu hefyd yn gwella'u siawns o fyw bywyd hapus a chyfranogi'n llawn mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.

- Ar gyfer disgyblion ag anawsterau dysgu dwys a lluosog, y cyflawniadau pwysicaf fel arfer yw cyfathrebu, annibyniaeth, ymatebolrwydd cymdeithasol a sefydlogrwydd emosiynol.

**Mesur cyflawniad a chyrhaeddiad**

88 Er mwyn mesur cyflawniad disgybl mewn perthynas â phob canlyniad dysgu, mae angen mesur cyrhaeddiad yn gywir ac olrhain cynnydd yn ofalus. Mae'n hanfodol cael disgrifiad neu fesur dibynadwy o'r lefel medr pan fydd darpariaeth yn dechrau (mesur gwaelodlin), ac ar adegau allweddol fel yr adolygiad blynyddol, diwedd cyfnod allweddol neu drosglwyddo i'r cyfnod dysgu nesaf.

89 Er bod llawer o ganlyniadau dysgu sydd yn werthfawr iawn i ddisgyblion ag AAA, ni ellir mesur llawer o'r rhain mewn ffordd sy'n darparu data rhifiadol o'r math sy'n

ddefnyddiol at ddibenion cymharu. Mae'r canlyniadau dysgu y gellir eu meintoli'n haws yn cynnwys:

- lefel cyrhaeddiad mewn pynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol;
- ar gyfer disgyblion mewn darpariaeth blynyddoedd cynnar, cyflawni'r Canlyniadau Dymunol ar gyfer dysgu;
- cyrhaeddiad a chynnydd mewn deall a defnyddio iaith;
- cyrhaeddiad a chynnydd mewn darllen, sillafu, ysgrifennu a rhifedd;
- cyfranogiad, fel y caiff ei fesur yn ôl cyfradd presenoldeb;
- ymddygiad, fel y caiff ei fesur yn ôl cyfradd gwaharddiadau o'r ysgol; a
- nifer a lefel y cymwysterau a'r dyfarniadau achrededig.

90 Mae llawer o ganlyniadau dysgu eraill sydd ymhell o fod yn anodd eu meintoli. Mae'r rhain yn cynnwys:

- gwelliannau mewn ymddygiad a medrau cymdeithasol;
- gwelliannau mewn hunanhyder a sefydlogrwydd emosiynol;
- y camau bach iawn tuag at gyfathrebu cynnar, annibyniaeth, a rhyngweithio cymdeithasol yn cael ei wneud gan ddisgyblion ag anawsterau dysgu difrifol neu anawsterau dysgu dwys a lluosog; a
- chynyddu cyfranogiad mewn gweithgareddau cymdeithasol a dysgu prif ffrwd.

91 Bydd cofnodion cyflawniad ar gyfer y canlyniadau hyn yn rhai disgrifiadol fel arfer yn hytrach na rhai rhifiadol. Mae hyn yn ei gwneud yn anoddach cymharu cyflawniadau a chynnydd disgyblion mewn lleoliadau gwahanol.

**Arfarnu cyflawniad**

92 I arfarnu cyflawniad yn effeithiol, mae'n angenrheidiol gwybod beth yw cynnydd da ar gyfer disgyblion o alluoedd gwahanol ac â mathau gwahanol o AAA. Mae hwn yn gwestiwn heriol iawn, ac yn gwestiwn nad yw ysgolion ac awdurdodau addysg lleol yn gallu ei ateb ar hyn o bryd. Y rheswm pennaf am hyn, hyd yn oed lle mae mesurau cynnydd dibynadwy, yw nad oes unrhyw feincnodau i gymharu'r cynnydd wedi'i fesur yn eu herbyn, â'r cynnydd disgwyliedig ar gyfer disgyblion â mathau tebyg o AAA a gallu, neu â disgyblion mewn ysgolion tebyg. Trafodwn ddatblygiad meincnodau yn rhan nesaf yr adroddiad hwn.

93 Yn hyn o beth, mae'r sefyllfa yng Nghymru yn debyg iawn i'r sefyllfa yn Lloegr, lle'r adroddodd Ofsted nad oedd unrhyw gytundeb ynghylch beth oedd cynnydd da ar gyfer disgyblion ag anawsterau dysgu ac anableddau. Fe wnaeth hyn atal dadansoddi hanfodol o ddata ar bob lefel. Prin iawn y gwnaeth ysgolion gwestiynu'u

hunain mor drylwyr ynghylch y gyfradd cynnydd ar gyfer disgyblion ag anawsterau dysgu ac anableddau, ag y gwnaethant ar gyfer disgyblion heb anawsterau dysgu ac anableddau; nid oedd awdurdodau lleol yn gallu llunio barnau sicr ynghylch effeithiolrwydd ysgolion gwahanol; ac roedd tueddiadau cenedlaethol yn anodd eu pennu.

*(Inclusion: Does it matter where pupils are taught? Ofsted, Gorffennaf 2006)*

## Pa mor dda y mae ysgolion yn arfarnu canlyniadau dysgu ar gyfer disgyblion ag AAA?

94 Roedd cyfnod 2 y gwaith hwn yn ymchwilio i arfer gyfredol mewn ysgolion yng Nghymru wrth arfarnu canlyniadau dysgu ar gyfer disgyblion ag AAA. Mae'r canlyniadau wedi'u tynnu o dystiolaeth o arolygiadau dros y cyfnod o 2001-2006, ac o arolwg o ddeg AALlau yng Nghymru a gynhaliwyd yn ystod tymor yr hydref 2006.

### Hunanarfarnu canlyniadau dysgu

95 Yn y tair blynedd ddiwethaf, mae ysgolion o bob math wedi gwella'r ffordd y maent yn defnyddio canlyniadau hunanarfarnu i gyfrannu at gynllunio gwelliant ysgolion. Fodd bynnag, lle mae'r hunanarfarnu yn wan, y rheswm am hynny'n aml yw nad yw ysgolion yn defnyddio digon o wybodaeth uniongyrchol am gynnydd a chyflawniadau disgyblion mewn perthynas â chanlyniadau dysgu allweddol i farnu perfformiad yr ysgol.

*(Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2004-2005: Estyn, Ionawr 2006)*

*(Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2005-2006: Estyn, Ionawr 2007)*

### Ysgolion prif ffrwd

96 Mae ysgolion prif ffrwd yn cadw ystod eang iawn o wybodaeth am gynnydd a chyflawniad disgyblion unigol ag AAA. Fodd bynnag, prin iawn yn unig y mae'r wybodaeth hon yn cael ei dwyn ynghyd i arfarnu'r effaith ar ganlyniadau dysgu ar gyfer grwpiau o ddisgyblion ag AAA neu ar draws yr ysgol gyfan.

97 Mae'r cofnodion ar gyfer disgyblion unigol yn cynnwys cyfoeth o wybodaeth sydd, o bosibl, yn werthfawr iawn i broses arfarnu effaith darpariaeth ar ganlyniadau dysgu. Mae cydlynwyr anghenion addysgol arbennig yn cadw cofnodion da o asesiadau disgyblion unigol, gan gynnwys unrhyw rhai sydd wedi'u cynnal gan asiantaethau allanol.

98 Yn nodweddiadol, mae ysgolion meithrin, cynradd ac uwchradd prif ffrwd yn cadw gwybodaeth gynhwysfawr am gyraeddiadau'r holl ddisgyblion mewn pynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol neu mewn cyflawni Canlyniadau Dymunol, cynnydd mewn iaith, darllen, sillafu, ysgrifennu a rhifedd, ac, mewn ysgolion uwchradd, y graddau a ddyfarnwyd mewn arholiadau allanol a chyflawniad cymwysterau achrededig eraill. Mae ysgolion yn cadw cofnodion da o bresenoldeb ac ymddygiad, er nad oes cyswllt da rhwng y rhain yn gyffredinol â data ar ganlyniadau dysgu ar gyfer disgyblion unigol a grwpiau o ddisgyblion.

99 Mae cydlynwyr anghenion addysgol arbennig yn chwarae rôl allweddol mewn asesu, gosod targedau a monitro cynnydd ar gyfer disgyblion ag anghenion mynych mewn ysgolion prif ffrwd. Maent yn cael cymorth yn y gwaith hwn yn aml gan staff

arbenigol o wasanaethau cymorth AAA a chynhwysiad awdurdodau addysg lleol, fel athrawon cymorth dysgu ac ymddygiad a seicolegwyr addysgol.

100 Fel arfer mae cofnodion da iawn o gyflawniad a chynnydd disgyblion ag anghenion prin sy'n cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau cyffredin neu mewn darpariaeth ag adnoddau mewn ysgolion prif ffrwd. Mae'r cofnodion hyn yn cael eu cadw gan athrawon arbenigol fel arfer, ac yn aml maent yn cynnwys gwybodaeth asesu fanwl iawn sy'n rhoi sylfaen dda ar gyfer arfarnu cynnydd disgyblion.

101 Yn nodweddiadol, mae cofnodion ysgol disgyblion unigol yn cynnwys manylion cywir a chynhwysfawr am gynnydd disgyblion mewn:

- cyflawni targedau mewn cynlluniau addysg unigol;
- medrau cymdeithasol a chyfathrebu;
- llythrennedd a rhifedd;
- ymddygiad ac agweddau at ddysgu;
- cyfranogiad mewn gweithgareddau ehangach;
- barn y disgybl am ei gynnydd/chynnydd ei hun; a
- barnau rhieni a gofalwyr.

102 Mae ysgolion yn defnyddio'r math hon o wybodaeth yn dda iawn i gynllunio darpariaeth a chymorth ar gyfer disgyblion unigol ag AAA. Fodd bynnag, mae ysgolion yn gyffredinol yn colli cyfleoedd i ddefnyddio'r un wybodaeth fel rhan o broses systematig o arfarnu effaith darpariaeth a chymorth AAA ar draws yr ysgol, ac ar gyfer grwpiau gwahanol o ddisgyblion.

103 Hyd yn oed pan fydd ysgolion yn dod ag ystod dda o wybodaeth ynghyd am ganlyniadau dysgu ar gyfer disgyblion unigol, nid ydynt yn gallu ei defnyddio'n effeithiol bob tro i gynorthwyo hunanarfarnu, gan nad oes ganddynt feincnodau dibynadwy i gymharu cynnydd ar gyfer y disgyblion hyn yn eu herbyn.

104 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi comisiynu Ymddiriedolaeth Teulu Fischer (FFT) i ddarparu data i ysgolion cynradd ac uwchradd ac awdurdodau addysg lleol i gynorthwyo arfarnu mesurau 'gwerth ychwanegol' cynnydd ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol wrth i ddisgyblion symud drwy'r cyfnodau allweddol.

105 Ar hyn o bryd, mae'r CDdGD yn cynnwys mesurau cyrhaeddiad y Cwricwlwm Cenedlaethol, ar lefel 1 neu uwchlaw, yn y pynciau craidd Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ar gyfer dros 90% o ddisgyblion ag AAA mewn ysgolion prif ffrwd. Mae hyn yn golygu bod gan ysgolion ac awdurdodau, ar gyfer y disgyblion hyn, fesur gwaelodlin da i siartio cynnydd bellach yn ei erbyn. Yn y tymor hwy, mae dadansoddiad o'r CDdGD fel hwnnw sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd gan FFT yn cynnwys y potensial i ddarparu meincnodau ar gyfer cynnydd disgwyliedig rhan fwyaf y disgyblion sydd ag AAA mewn ysgolion prif ffrwd.

### Ysgolion arbennig

106 Mae ysgolion arbennig, gan gynnwys ysgolion arbennig annibynnol, yn wynebu set unigryw o heriau mewn perthynas ag arfarnu canlyniadau dysgu. Y rheswm am hyn yw:

- mae rhan fwyaf yr ysgolion arbennig yn darparu ar gyfer grŵp bychan ac amrywiol iawn o ddisgyblion sydd ag anghenion cymhleth iawn;
- mae disgyblion yn aml yn gweithio ar lefel 1 y Cwricwlwm Cenedlaethol neu islaw;
- mae ysgolion yn defnyddio ystod eang o ddulliau asesu sy'n addas i'w hanghenion ond sy'n gwahaniaethu o ysgol i ysgol; ac
- nid oes meincnodau dibynadwy i gymharu cynnydd disgyblion â mathau tebyg o AAA prin neu ddisgyblion mewn ysgolion tebyg yn eu herbyn.

107 Mae'r materion hyn yn codi hefyd mewn rhywfaint o ddarpariaeth ag adnoddau mewn ysgolion prif ffrwd, er enghraifft, mewn unedau ar gyfer disgyblion ag anawsterau dysgu difrifol, dwys a lluosog.

108 Er gwaetha'r heriau hyn, mae llawer o ysgolion arbennig ac unedau prif ffrwd ag adnoddau yn defnyddio gwybodaeth am gynnydd disgyblion yn dda i gynorthwyo hunanarfarnu ysgolion.

109 Mae'r ysgolion gorau yn dda iawn o ran casglu gwybodaeth uniongyrchol am ansawdd addysgu a'r cynnydd y mae disgyblion yn ei wneud. Mae'r ysgolion hyn yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda hefyd i gynllunio gwelliannau ysgol.

110 Mae'r broses o arfarnu canlyniadau bron bob amser wedi'i gwreiddio'n dda yng ngwaith ysgolion arbennig o ddydd i ddydd. Mae athrawon fel arfer yn cadw cofnodion da o gynnydd unigol disgyblion fel rhan o gynllunio ac arfarnu addysgu bob dydd. Mae'r broses barhaus hon o 'asesu ar gyfer dysgu' yn adeiladu darlun manwl iawn o gynnydd a chyflawniadau disgyblion unigol, ac mae hyn yn galluogi ysgolion i addasu addysgu a chymorth i fodloni anghenion newidiol disgyblion.

111 Ar adegau allweddol, fel adolygiadau blynyddol a throsglwyddo i'r cam dysgu nesaf, mae ysgolion arbennig yn dod â'r wybodaeth hon ynghyd i ddarparu crynodeb ac arfarniad o gynnydd cyffredinol ar gyfer disgyblion unigol.

112 Yn nodweddiadol, mae cofnodion disgyblion yn cynnwys gwybodaeth ddisgrifiadol o ansawdd da am:

- y camau bach iawn tuag at gyfathrebu cynnar, annibyniaeth, a rhyngweithio cymdeithasol yn cael ei wneud gan ddisgyblion ag anawsterau dysgu difrifol neu anawsterau dysgu dwys a lluosog;
- gwelliannau mewn ymddygiad, hunanhyder a sefydlogrwydd emosiynol;

- cynyddu cyfranogiad mewn gweithgareddau cymdeithasol a dysgu prif ffrwd.

- cynnydd mewn llythrennedd a rhifedd;

- barnau rhieni a gofalwyr; a

- phan fydd modd, barn y disgybl am ei gynnydd/chynnydd ei hun.

113 Mewn ysgolion arbennig sy'n darparu ar gyfer disgyblion sydd ag anawsterau emosiynol ac ymddygiad a/neu anawsterau dysgu canolig, mae cofnodion fel arfer yn cynnwys manylion am lefelau cyrhaeddiad hefyd mewn pynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol, cyflawniad Canlyniadau Dymunol, mesurau cynnydd mewn iaith, darllen, sillafu a rhifau, a chyflawniadau mewn ennill cymwysterau a dyfarniadau achrededig.

114 Mae gan ysgolion arbennig ar gyfer disgyblion ag anghenion cymhleth iawn, gan gynnwys y rheini ag anawsterau dysgu dwys a lluosog (ADDLl), systemau sydd wedi'u sefydlu'n dda ar gyfer asesu a monitro cynnydd disgyblion sy'n gweithio islaw lefel 1 y Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae'r ysgolion hyn yn defnyddio un neu fwy o systemau sy'n seiliedig ar raddfeydd P[2] y Cwricwlwm Cenedlaethol i olrhain cynnydd disgyblion mewn llythrennedd, rhifedd ac agweddau ar addysg bersonol a chymdeithasol ac i osod targedau ar gyfer cynnydd pellach. Mae'r systemau hyn yn cynnwys PACE (www.equals.co.uk) a'r system INSTEP, a ddatblygwyd gan ysgol arbennig yng Nghymru.

115 Fodd bynnag, mae ymarferwyr ysgolion annibynnol ac ymchwilwyr annibynnol wedi nodi nifer o wendidau yn y graddfeydd P a systemau cysylltiedig sy'n cyfyngu ar eu gwerth fel arfau i arfarnu canlyniadau dysgu ar gyfer rhai disgyblion unigol, ac ar lefel ysgol gyfan. Mae'r dulliau hyn yn arbennig o broblematig ar gyfer disgyblion ag anawsterau dysgu dwys a lluosog ac eraill â phroffiliau datblygiadol cymhleth sy'n gweithio ar lefelau P1 i P3. Mae diffygion y dulliau hyn yn cynnwys:

- mae asesu wedi'i seilio'n aml ar farnau 'ffit orau' sy'n oddrychol, yn amhenodol ac yn arwain at gymariaethau annibynadwy yn y tymor byr; ac

- nid ydynt yn briodol fel arfer ar gyfer asesu anghenion disgyblion ag anghenion unigol cymhleth iawn, y mae eu proffiliau datblygiad yn anwastad iawn yn aml.

*(Assessment using the P-scales: best fit – fit for the purpose? Andrew Martin, British Journal of Special Education, Cyfrol 33, Rhif 2, 2006)*

116 Fel dewis arall i ddulliau'n seiliedig ar raddfeydd P, mae ysgolion arbennig yng Nghymru wedi rhoi cefnogaeth gref i gyflwyno'r deunyddiau asesu newydd ar gyfer dysgwyr ag anawsterau dysgu dwys a difrifol: 'Llwybrau Dysgu' (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006).

117 Mae Llwybrau Dysgu yn cydnabod bod gan ddysgwyr â ADDLl alluoedd a dulliau dysgu unigryw, ac mae'n darparu fframwaith priodol ar gyfer ysgolion i asesu'r

[2] Meini prawf asesu yw'r graddfeydd P ar gyfer nodi cynnydd islaw Lefel 1 y Cwricwlwm Cenedlaethol.

meysydd cysylltiedig cyfathrebu, rhyngweithio cymdeithasol a datblygiad gwybyddol. Mae llawer o ysgolion arbennig eisoes yn defnyddio’r deunyddiau hyn yn dda i osod targedau datblygiadol priodol ar gyfer cynnydd mewn medrau dysgu sylfaenol a medrau trawsgwricwlaidd hanfodol, fel cyfathrebu, datblygiad gwybyddol cynnar a datblygiad personol a chymdeithasol.

**UCDau a darpariaeth EOTAS arall**

118 Yn aml, disgyblion sy’n cael addysg heblaw am yn yr ysgol (EOTAS) mewn unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) ac unedau anghofrestredig yw’r rheini sy’n wynebu anfanteision addysgol a chymdeithasol sylweddol. Mae rhai wedi’u gwahardd yn barhaol o ysgolion; mae llawer o’r lleill mewn perygl o gael eu gwahardd. Mae pedwar o bob pump o ddisgyblion mewn unedau yn fechgyn, y rhan fwyaf ohonynt wedi dadrithio. Mae lefel cyrhaeddiad gwael gan gyfran uchel o ddisgyblion mewn medrau sylfaenol. Mae datganiad anghenion addysgol arbennig gan bumed o’r disgyblion mewn UCDau.

*(Arolwg Thematig o Unedau Cyfeirio Disgyblion a Darpariaeth Debyg: Estyn, 2004)*

119 Eleni, arolygodd Estyn ddeuddeg o unedau cyfeirio disgyblion. Roedd wyth o’r unedau hyn yn defnyddio gwybodaeth am ganlyniadau dysgu disgyblion yn dda i gynorthwyo hunanarfarnu. Nid oedd y pedair uned arall yn casglu gwybodaeth ddibynadwy am gynnydd a chyflawniadau disgyblion.

*(Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2005-2006: Estyn, Ionawr 2007)*

## Beth sy'n digwydd i wybodaeth am ganlyniadau dysgu ar adegau trosglwyddo allweddol?

120 Pan fydd dysgwyr ag AAA yn symud ymlaen o leoliad neu ysgol i gam nesaf eu haddysg, mae'n hanfodol bwysig bod y cofnod o'u cyflawniadau yn cael ei drosglwyddo i'r darparwr nesaf. Mae trosglwyddo gwybodaeth briodol yn effeithlon yn galluogi'r darparwr newydd i gynllunio'n briodol i fodloni anghenion unigol y dysgwr, a hefyd i sefydlu gwaelodlin glir i allu barnu cynnydd pellach yn ei herbyn.

121 Oni bai bod darparwyr yn cadw cofnodion cywir, ac yn eu pasio ymlaen, nid oes modd arfarnu canlyniadau dysgu pwysig a all ddod yn amlwg yn y tymor hwy yn unig, fel dilyniant llwyddiannus i addysg ôl-16, hyfforddiant, cyflogaeth a byw'n annibynnol. Er enghraifft, efallai na fydd effaith llawer o'r gwaith da sy'n digwydd yn y cyfnodau addysg cyn ysgol neu'r blynyddoedd cynnar yn amlwg nes bod dysgwyr yn cyrraedd oed gadael yr ysgol, neu oedolaeth ifanc hyd yn oed. Yn yr un modd, mae barnau am y 'gwerth ychwanegol' gan ysgolion arbennig, gan gynnwys y rheini yn y sector annibynnol, yn dibynnu ar fodolaeth gwybodaeth ddibynadwy am gyflawniadau, cyraeddiadau ac ymddygiad dysgwyr cyn iddynt drosglwyddo i'r ysgolion hyn, ac yn dibynnu hefyd ar wybod beth sy'n digwydd pan fydd y dysgwyr hyn yn gadael yr ysgol.

122 Fodd bynnag, mae tystiolaeth o arolygu ysgolion, colegau a darparwyr eraill yn dangos nad ydynt bob amser yn cael gwybodaeth gywir ac amserol am gyflawniadau blaenorol dysgwyr ag AAA. Weithiau nid ydynt yn cael unrhyw wybodaeth o gwbl oherwydd bod ysgolion ac awdurdodau yn colli trywydd y dysgwr. Mae hyn yn fwy tebygol o ddigwydd lle mae dysgwyr yn symud o amgylch yn aml, ac mae'n effeithio'n arbennig ar rai o'r dysgwyr mwyaf agored i niwed sydd ag AAA, gan gynnwys disgyblion wedi'u gwahardd, plant y gofelir amdanynt, troseddwyr ifanc a dysgwyr anabl sy'n symud o ddarpariaeth ysgol i ddarpariaeth ôl-16.

### O gyfnod cyn ysgol i'r ysgol

123 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo'n gryf ac yn briodol i nodi anghenion addysgol arbennig yn gynnar, ac i wneud darpariaeth gynnar ac effeithiol i fodloni'r anghenion hynny. Mae addysg gynnar yn gwneud cyfraniad hanfodol i gyflawni'r nod hwn ar gyfer babanod a phlant ifanc iawn sydd ag anghenion addysgol arbennig, neu sy'n debygol o fod ag anghenion addysgol arbennig.

124 Mae plant ag anghenion prin (fel y'i diffinnir ym mhennod 3) yn debygol o gael eu nodi ag angen asesiad a darpariaeth AAA cyn iddynt fynd i mewn i addysg gynnar, ac o gael lefel uchel o gymorth aml-asiantaethol gan wasanaethau addysg, iechyd a gofal cymdeithasol, fel y dangosir yn yr enghreifftiau canlynol.

- Mae babi sy'n cael ei eni â Syndrom Down yn cael ei nodi ag angen cymorth ychwanegol pan gaiff ei eni, neu'n fuan wedi hynny. Mae'n debygol fod problemau gwybyddol a chyfathrebu gan y babi, ond nid oes modd gwybod pa mor ddifrifol fydd y rhain. Bydd angen cymorth cynnar ar y babi hwn gan weithwyr proffesiynol iechyd, fel therapyddion lleferydd ac iaith a

ffisiotherapyddion. Mae'n debygol o gael blaenoriaeth ar gyfer darpariaeth addysg gynnar, gan gynnwys dysgu yn y cartref cyn ysgol lle mae hwn ar gael.

- Mae bachgen sy'n iach pan gaiff ei eni yn dioddef llid yr ymennydd yn 22 mis oed. O ganlyniad, mae'n datblygu namau difrifol ar y clyw a'r golwg, ac mae ganddo anawsterau corfforol a dysgu dwys. Bydd ganddo anghenion arbennig am ofal arbenigol, ac ymyrraeth feddygol ac addysgol gydol ei fywyd. Mae'n debygol iawn o gael addysg gynnar mewn ysgol arbennig.

- Mae nam dwys ar glyw babi yn cael ei nodi'n fuan ar ôl iddi gael ei geni gan raglen sgrinio newydd-eni. Mae'r babi'n cael cymhorthion clyw, ac mae ei rhieni'n cael cymorth wythnosol gan athro'r byddar. Nes ymlaen, mae'n cael mewnblaniad yn y cochlea, ac erbyn ei bod yn saith oed, mae'n gallu deall a defnyddio lleferydd bron gystal â phlant eraill o oed tebyg. Mae'n siwr y bydd yn mynychu ysgol neu ddosbarth meithrin prif ffrwd, ac yna'n mynd ymlaen i ysgol gynradd brif ffrwd.

125 Mae ymarferwyr y blynyddoedd cynnar yn chwarae rôl allweddol mewn nodi ac ymyrryd yn gynnar ar gyfer plant y mae eu hanghenion mynych (fel y'u diffinnir ym mhennod 3) yn dod i'r amlwg ar ôl iddynt fynd i mewn i addysg gynnar. Er enghraifft:

- mae bachgen bach sy'n iach ac yn hapus yn ystod ei flynyddoedd cynnar yn mwynhau mynd i'r cylch chwarae, ond nid yw'n ymddangos ei fod yn deall yr hyn mae pobl yn dweud wrtho o hyd, mae braidd yn lletchwith am ei oed, mae ei ddatblygiad llafar yn wael ac weithiau mae'n ymddwyn yn ymosodol tuag at blant eraill. Mae ymarferwyr y blynyddoedd cynnar yn trefnu i roi cymorth unigol iddo, ac maent yn gweithio'n agos â'i rieni i drefnu asesiad llawn o'i anghenion arbennig cyn iddo ddechrau'r ysgol.

126 Nid oes fawr o amheuaeth bod addysg gynnar a chymorth aml-asiantaethol o fudd i blant ifanc iawn sydd ag anghenion addysgol arbennig, ac i'w rhieni.

*(Cymorth i Blant ag Anghenion Addysgol Arbennig: Trosolwg gan Estyn: Estyn, Hydref 2003)*

127 Mae canfyddiadau arolygu yn dangos bod ymarferwyr ym mhob math o ddarpariaeth blynyddoedd cynnar yn talu sylw manwl i fodloni anghenion unigol plant, ac yn gyffredinol maent yn cadw cofnodion da o gynnydd mewn perthynas â'r Canlyniadau Dymunol ar gyfer dysgu.

128 Fodd bynnag, nid yw'n hawdd bob amser cael tystiolaeth ddibynadwy o effaith nodi ac ymyrryd cynnar ar ganlyniadau addysgol tymor hwy, a hynny'n bennaf oherwydd bod rhwystrau sy'n atal trosglwyddo gwybodaeth fanwl am ddisgyblion unigol rhwng darparwyr y blynyddoedd cynnar, asiantaethau cymorth ac ysgolion. O ganlyniad, mae gormod o wybodaeth am ganlyniadau dysgu yn y blynyddoedd cynnar yn cael ei cholli pan fydd plant yn trosglwyddo i'r ysgol.

129 Y prif rwystrau sy'n atal trosglwyddo gwybodaeth yw:

- nid yw rhai asiantaethau, gwasanaethau iechyd yn nodedig, yn gallu rhannu gwybodaeth am eu bod yn rhwym gan reolau cyfrinachedd; ac

- nid yw rhieni bob amser yn barod i roi caniatâd i wybodaeth am anghenion arbennig eu plentyn gael ei rhannu.

130 Mewn awdurdodau lle mae gwasanaethau cymorth cyn ysgol sydd wedi'u sefydlu'n dda, mae athrawon arbenigol a chynghorwyr yn gweithio'n agos â rhieni, asiantaethau cymorth ac ysgolion, ac, o ganlyniad, mant yn gallu goresgyn y rhwystrau hyn fel arfer.

**Trosglwyddiadau o ysgol i ysgol**

131 Pan fydd disgyblion yn symud o un ysgol i ysgol arall, mae gweithdrefn glir ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth yn electronig rhwng ysgolion, ac mae'n cael ei hesbonio yn y ddogfen arweiniad: *Cofnodion Addysgol, Adroddiadau Ysgol a'r System Drosglwyddo Gyffredin – cadw, gwaredu, datgelu a throsglwyddo gwybodaeth am ddisgyblion: Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cylchlythyr Rhif 18/2006, Mai 2006.*

132 Er hynny, mae ysgolion ac awdurdodau'n dod ar draws anawsterau weithiau o ran cael gwybodaeth amserol am ddisgyblion sy'n trosglwyddo o un ysgol i ysgol arall, yn enwedig os yw'r disgybl yn symud i AALl gwahanol hefyd. Y rheswm am hyn yw nad yw ysgolion ac awdurdodau bod amser yn defnyddio'r gweithdrefnau ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth am ddisgyblion gystal ag y dylent, a hefyd mae amgylchiadau personol rhai o'r dysgwyr mwyaf agored i niwed yn ei gwneud yn anodd iawn eu holrhain wrth iddynt symud i leoliad newydd.

**Trosglwyddiadau i ysgolion a gynhelir y tu allan i'r sir**

133 Mae nifer fach o ddisgyblion ag AAA yn cael eu haddysgu mewn ysgolion y tu allan i'r sir sy'n cael eu cynnal gan AALl heblaw am yr un y mae'r disgybl yn byw ynddi. Yn yr achosion hyn, awdurdod cartref y disgybl sy'n gyfrifol am anfon unrhyw wybodaeth asesu statudol yn ei blaen, gan gynnwys datganiad y disgybl (lle bo hynny'n gymwys) i'r ysgol y tu allan i'r sir. Fodd bynnag, bydd disgyblion felly yn ymddangos wedi hynny ar y cofnodion CYBLD ac CDdGD ar gyfer yr ysgol y tu allan i'r sir, a'r AALl sy'n cynnal yr ysgol honno, ond nid ar y cofnodion ar gyfer yr AALl cartref a all fod yn darparu'r cyllid ar gyfer cymorth ychwanegol. Mae hyn yn ei gwneud yn anoddach i'r awdurdod cartref arfarnu'r canlyniadau dysgu ar gyfer y disgyblion hyn.

**O'r ysgol i ddarpariaeth EOTAS**

134 Mae'r grŵp o ddisgyblion sy'n cael eu haddysgu heblaw am yn yr ysgol (EOTAS) yn cynnwys rhai o'r dysgwyr ag AAA sydd fwyaf agored i niwed. Mae'r disgyblion hyn yn cynnwys y rheini sydd wedi'u gwahardd o'r ysgol, yn barhaol yn aml, ac sydd ag anghenion emosiynol, ymddygiadol a dysgu sylweddol yn aml. Fodd bynnag, pan fydd y disgyblion hyn yn trosglwyddo i ddarpariaeth EOTAS, nid yw ysgolion ac

awdurdodau yn gwneud yn siwr bob amser bod y wybodaeth gywir yn mynd gyda hwy.

135 Yn benodol, yn 2004, adroddodd Estyn nad yw ysgolion yn gwneud digon i ganlyn cynnydd disgyblion ar eu cofrestrau sy'n cael eu haddysg heblaw am yn yr ysgol am unrhyw reswm. Anaml y mae cyraeddiadau a chyflawniadau'r disgyblion hyn sy'n agored i niwed yn cael eu cynnwys pan fydd ysgolion yn arfarnu eu darpariaeth eu hunain. Mae canfyddiadau arolygiadau a gwaith arolwg yn y flwyddyn ddiwethaf yn dangos mai ychydig iawn y mae'r sefyllfa hon wedi newid er 2004.

*(Arolwg Thematig o Unedau Cyfeirio Disgyblion a Darpariaeth Debyg: Estyn, 2004)*

136 Nid oes unrhyw gofnod o ddisgyblion yn cael EOTAS mewn CYBLD nac yn yr CDdGD, ac felly ni all awdurdodau lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru arfarnu'r canlyniadau ar gyfer y disgyblion hyn.

**Trosglwyddiadau i ysgolion arbennig annibynnol**

137 Mae nifer fach o ddisgyblion ag AAA yn cael eu haddysgu mewn ysgolion annibynnol, ar gost eu rhieni weithiau, ond yn cael ei ariannu gan awdurdodau lleol yn aml oherwydd bod ganddynt ddatganiadau AAA a/neu eu bod yn blant y gofelir amdanynt.

138 Mae disgyblion ag AAA sy'n cael eu hariannu gan awdurdodau lleol yn cynnwys rhai o'r dysgwyr mwyaf agored i niwed yng Nghymru. Mae llawer o'r disgyblion hyn angen lefelau eithriadol o uchel o gymorth arbenigol, ac maent yn cael eu haddysgu mewn darpariaeth sy'n ddrud ofnadwy, yn enwedig pan fydd yn cyfuno gofal preswyl am 52 wythnos y flwyddyn gyda darpariaeth addysgol arbennig.

139 Mae plant yn dod i ysgolion arbennig annibynnol yng Nghymru o bob rhan o'r Deyrnas Unedig, ond o Loegr yn bennaf. Mae tystiolaeth arolygu'n dangos lle mae disgyblion ag AAA hefyd yn blant y gofelir amdanynt, eu bod yn cael eu derbyn i'r ddarpariaeth gofal ac addysg yn eithaf sydyn yn aml ac â hanes o lawer o leoliadau gofal ac addysg blaenorol, rhai ohonynt mewn llety diogel. Anaml iawn y mae unrhyw gofnodion ysgol blaenorol ar gyfer y disgyblion hyn, ac mae'n arferol canfod, lle mae datganiadau AAA gan ddisgyblion, nad yw'r rhain wedi'u cadw'n iawn, mae gwybodaeth asesu wedi dyddio yn aml, ac nid oes cofnod o adolygiadau blynyddol. Mae awdurdodau lleoli yn araf iawn yn aml yn ymateb i geisiadau gan ysgolion annibynnol am wybodaeth ddiweddar am y disgyblion hyn; ar brydiau nid ydynt yn ymateb o gwbl.

**O'r ysgol i ddarpariaeth ôl-16**

140 Pan fydd pobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig yn cyrraedd 16 oed, fe allant ddewis parhau â'u haddysg neu hyfforddiant yn y chweched dosbarth mewn ysgol, yn y coleg neu mewn dysgu yn y gwaith.

141 Mae'r wybodaeth ganlynol wedi'i chodi o ddau adroddiad diweddar gan Estyn ar y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ag anawsterau dysgu ac anableddau yn y sector ôl-16:

- *Dewis y camau nesaf: paratoi dysgwyr mewn Medrau Byw'n Annibynnol mewn colegau addysg bellach ar gyfer eu trosglwyddo i gyflogaeth, hyfforddiant neu addysg bellach: Estyn, Ebrill 2004*; a

- *Llwyddiant i bawb. Cymorth mewn colegau addysg bellach a chwmnïau dysgu yn y gwaith ar gyfer pobl 16-19 oed gydag anghenion dysgu ychwanegol: Estyn, 2005.*

142 Lle mae dysgwyr yn dewis aros yn yr ysgol, nes eu bod yn 19 oed o bosibl, mae'r Cod Ymarfer AAA yn parhau'n gymwys, ac mae ysgolion ac AALlau yn cadw'r cyfrifoldeb dros gwrdd â'u hanghenion, yn unol â'r fframwaith statudol ar gyfer AAA. Mewn cyferbyniad, nid oes rhaid i ddarparwyr ôl-16 heblaw am ysgolion gadw at y Cod Ymarfer AAA, ac mae AALlau yn peidio â chynnal datganiadau AAA pan fydd disgyblion yn gadael yr ysgol.

143 Mae dysgwyr â datganiadau sy'n trosglwyddo o'r ysgol i goleg neu ddysgu yn y gwaith â'r fantais o gael asesiadau trylwyr ac ysgrifenedig o'u hanghenion hyfforddi gan gynghorwr gyrfa. Fodd bynnag, nid felly y mae hi ar gyfer mwyafrif y dysgwyr ag AAA y mae'r cynllun gweithredu gan yr ysgol neu weithredu gan yr ysgol a mwy yn bodloni eu hanghenion.

144 Er bod colegau a darparwyr dysgu yn y gwaith yn gwneud darpariaeth dda yn gyffredinol ar gyfer dysgwyr y nodwyd bod ganddynt AAA yn yr ysgol, nid ydynt mewn lle gystal ag y gallent fod i arfarnu canlyniadau dysgu ar gyfer y dysgwyr hyn. Y rheswm am hyn yw:

- ychydig iawn o wybodaeth y mae'r darparwyr hyn yn ei chael gan ysgolion am anghenion, galluoedd, cyflawniadau neu gyraeddiadau unigol dysgwyr;

- nid yw darparwyr yn casglu nac yn gwneud digon o ddefnydd o ddata ar gyrchfannau a chanlyniadau dysgwyr mewn cyflogaeth a hyfforddiant;

- mae'r Ddeddf Diogelu Data yn cael ei dyfynnu'n aml fel rhwystr sy'n atal rhannu gwybodaeth yn effeithiol;

- mae darparwyr yn amharod weithiau i gyfnewid gwybodaeth â'i gilydd gan eu bod yn gweld eu hunain fel cystadleuwyr, er enghraifft, ysgolion â cholegau a cholegau â darparwyr dysgu yn y gwaith; ac

- nid yw dysgwyr a'u rhieni yn barod bob tro i ddatgelu gwybodaeth bwysig ond gwybodaeth sy'n sensitif yn bersonol, er enghraifft, am anghenion emosiynol ac ymddygiad a materion iechyd meddwl.

## Pa mor dda y mae awdurdodau addysg lleol yn mesur ac yn arfarnu canlyniadau dysgu ar gyfer dysgwyr ag AAA?

145 Fe wnaeth Cyfnod 2 y gwaith hwn ymchwilio i arfer gyfredol mewn AALlau yng Nghymru wrth arfarnu canlyniadau dysgu ar gyfer disgyblion ag AAA. Cymerwyd y canfyddiadau o dystiolaeth o arolygu ac o arolwg o ddeg AALl yng Nghymru lle'r oedd arfer dda mewn darparu cymorth AAA eisoes wedi cael ei nodi.

**Canfyddiadau arolygu**

146 Mae’r fframwaith arolygu a hunanarfarnu ar gyfer gwasanaethau awdurdodau lleol (Estyn, 2006) yn cynnwys arfarniad o’r cwestiwn allweddol: Pa mor effeithiol yw gwasanaethau a sut mae perfformiad yn cymharu, gan gynnwys gwerth am arian?

147 Mewn perthynas â’r gwasanaethau a ddarperir ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol, mae’r meini prawf arolygu yn cynnwys y nodweddion da nodweddiadol canlynol.

- Mae’r Cyngor yn monitro ac yn arfarnu effaith ei bolisïau a’i ddarpariaeth ar gyflawniadau plant a phobl ifanc ag ADY, ac mae’n cymryd camau amserol i fynd i’r afael ag unrhyw danberfformio.

- Mae gwaith y Cyngor yn effeithiol wrth helpu plant a phobl ifanc ag ADY i wneud cynnydd addysgol da mewn perthynas â’u targedau dysgu unigol, atal gwahardd disgyblion ag ADY a chyflawni safonau presenoldeb uchel gan ddisgyblion ag ADY.

- Mae cynnydd plant a phobl ifanc unigol ag ADY yn cael ei adolygu a’i gyfathrebu’n rheolaidd rhwng asiantaethau, a chaiff targedau eu diwygio yn unol â hynny.

148 Rhwng 2001 a 2006, mae Estyn wedi arolygu’r gwasanaethau AAA ym mhob awdurdod yng Nghymru. At ei gilydd, barnwyd bod y gwasanaethau mewn dau o bob tri awdurdod naill ai’n dda neu’n rhagorol. Fodd bynnag, er gwaethaf y darlun cadarnhaol hwn, roedd rhai diffygion mewn monitro ac arfarnu gwasanaeth mewn 20 o’r 22 awdurdod. Yn nodweddiadol, nid oedd awdurdodau yn mesur effeithiolrwydd y gwasanaeth o ran cyflawniadau a chyraeddiadau disgyblion. Dyma oedd y ddau eithriad:

- Sir Ddinbych, lle'r oedd yr awdurdod wedi gwneud dechrau da wrth ddefnyddio data perfformiad i olrhain cynnydd disgyblion ag anghenion addysgol arbennig (Hydref 2003); a

- Chaerffili, lle nododd arolygwyr gryfder wrth ddatblygu defnydd effeithiol o ddata meincnod a data cymharol arall (Mawrth 2004).

## Canfyddiadau'r arolwg

149 Roedd yr awdurdodau a gynhwyswyd yn yr arolwg yn dangos nifer o agweddau ar arfer dda wrth arfarnu canlyniadau ar gyfer dysgwyr ag AAA. Mae Atodiad 4 yn cynnwys saith astudiaeth achos sy'n egluro gwahanol agweddau ar y gwaith hwn.

## Cywirdeb a chysondeb data AAA

150 Mae'r rhan fwyaf o'r awdurdodau yr ymwelwyd â hwy yn gwneud cynnydd da mewn gwella ansawdd a hygyrchedd gwybodaeth sylfaenol am ddisgyblion unigol. Fodd bynnag, mae'r data a gynhwysir ar hyn o bryd yn anghyflawn ac yn aml yn anghywir. Nid oes gan yr un awdurdod gofnod unedig o'r holl ddisgyblion ag AAA y mae'n gwneud darpariaeth wedi'i hariannu ar eu cyfer, er bod rhai awdurdodau yn agos at gyflawni hyn.

151 Mae Astudiaeth achos 1 yn Atodiad 4 yn disgrifio'r modd y mae system rheoli data CRIS2 yn helpu ysgolion prif ffrwd a swyddogion AALl yng Nghaerffili i gasglu gwybodaeth gywir am ddisgyblion ag AAA ac am y cyllid a ddyrennir i fodloni eu hanghenion.

152 Mae gan awdurdodau wybodaeth gynhwysfawr am hunaniaeth a lefel AAA disgyblion unigol y maent yn darparu ar eu cyfer yn eu hysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig eu hunain a gynhelir. Cedwir y wybodaeth hon yn electronig fel arfer, mewn cronfeydd data, sy'n cysylltu â'r System Rheoli Gwybodaeth Ysgolion (SIMS) a/neu gronfa ddata CYBLD, neu'n deillio ohonynt.

153 Fodd bynnag, mae awdurdodau yn ei chael yn anodd defnyddio'r wybodaeth hon fel sylfaen gadarn ar gyfer monitro ac arfarnu. Mae rhwystrau at y gwaith hwn yn cynnwys:

- nad yw'r wybodaeth y mae ysgolion yn ei darparu, trwy system CYBLD, bob amser yn rhoi darlun cywir o AAA disgyblion;
- bod cofnodion disgyblion ag AAA sy'n cael darpariaeth cyn-ysgol, yn cael eu haddysgu y tu allan i'r sir neu ar wahân i yn yr ysgol, fel arfer yn cael eu cadw ar wahân ac mewn ffyrdd nad ydynt yn gydnaws â systemau rheoli electronig arferol yr awdurdod;
- er bod gwybodaeth dda am gyrhaeddiad disgyblion ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol, mae awdurdodau ac ysgolion yn ei chael yn llawer anos meintoli a chrynhoi cyflawniadau a chynnydd disgyblion mewn ystod ehangach o ganlyniadau dysgu;
- bod rhywfaint o'r wybodaeth bwysicaf am ganlyniadau dysgu, fel cynnydd mewn llythrennedd a gwelliannau mewn ymddygiad a phresenoldeb, yn cael ei chadw ar wahân, er enghraifft, gan gydlynwyr AAA, seicolegwyr addysgol ac athrawon arbenigol mewn gwasanaethau cymorth canolog;
- bod defnyddio cronfeydd data gwahanol, sydd weithiau'n anghydnaws, yn arwain at reoli gwybodaeth yn annigonol; ac

- nad oes gan rai awdurdodau'r gallu mewn timau canolog i roi'r amser sydd ei angen i ddod ynghyd â'r holl wybodaeth sydd ganddynt, neu ddatblygu system electronig fwy cydlynus, at ddibenion arfarnu.

154 Mae awdurdodau yn dechrau mynd i'r afael â'r materion hyn, trwy herio ysgolion i wella ystod a chywirdeb data, a thrwy ddatblygu eu systemau eu hunain o olrhain a chofnodi cyflawniadau a chyraeddiadau disgyblion mewn ystod ehangach o ganlyniadau dysgu.

155 Mae astudiaeth achos 2 yn Atodiad 4 yn disgrifio'r modd y mae partneriaeth effeithiol rhwng yr awdurdod a'i ysgolion prif ffrwd, ym Mlaenau Gwent, yn arwain at welliannau yn ansawdd y data a gofnodir ar CYBLD. Yn yr un awdurdod, mae cydlynwyr anghenion addysgol arbennig yn datblygu dull cyson o arfarnu a chofnodi cynnydd ar gyfer disgyblion ag AAA.

**Gwybodaeth am ganlyniadau ar gyfer disgyblion ag AAA**

156 Mae pob un o'r awdurdodau y gwnaed arolwg ohonynt yn anelu at wella'r broses o fonitro ac arfarnu canlyniadau dysgu ar gyfer disgyblion ag AAA, ac maent yn gweithio mewn partneriaeth â'u hysgolion i sefydlu systemau i gefnogi'r gwaith hwn. Mae hyn yn waith cymhleth a heriol, sydd yn y rhan fwyaf o awdurdodau, yn ei gyfnod datblygu cynnar.

157 Ceir llawer o enghreifftiau o arfer dda mewn agweddau ar y gwaith. Fodd bynnag, nid yw awdurdodau yn gallu arfarnu effaith yr holl ddarpariaeth y maent hwy a'u hysgolion yn ei threfnu ar gyfer disgyblion ag AAA. Mae hyn yn bennaf oherwydd:

- mai cyfran fach yn unig o'r holl wybodaeth am ganlyniadau dysgu sydd ar gael iddynt y mae awdurdodau yn ei defnyddio;

- nad oes meincnodau sefydledig i arwain barnau am y cynnydd a wna disgyblion ag AAA mewn perthynas â chyflawniad a chyrhaeddiad blaenorol;

- bod amrywiaeth math a graddau AAA mewn ysgolion yn golygu nad yw hi bob amser yn bosibl dod o hyd i ysgolion tebyg at ddibenion cymharu a meincnodi;

- nid yw awdurdodau yn gofyn i ysgolion gasglu, defnyddio na throsglwyddo gwybodaeth am rai canlyniadau dysgu allweddol, fel dilyniant i ddysgu pellach a chyfranogiad mewn gweithgareddau ehangach;

- lle mae gwybodaeth am ganlyniadau dysgu ehangach ar gael, nid oes gan awdurdodau'r gallu rheoli i'w defnyddio yn effeithiol i gefnogi arfarnu; a

- bod systemau casglu data mewn awdurdodau yn canolbwyntio'n dda ar ganlyniadau dysgu ar gyfer disgyblion mewn ysgolion a gynhelir gan AALl ond nad ydynt yn fel arfer yn cynnwys y canlyniadau hynny ar gyfer disgyblion yn y blynyddoedd cynnar, darpariaeth annibynnol neu ddarpariaeth ar wahân i yn yr ysgol.

158 Mae astudiaeth achos 3 yn Atodiad 4 yn disgrifio'r ffordd y mae swyddogion cynhwysiad a gwella ysgolion yn Sir y Fflint yn gweithio gydag ysgolion i sefydlu set ddata gyffredin o ddangosyddion perfformiad a fydd yn helpu ysgolion a'r awdurdod i fonitro ac arfarnu cyflawniad disgyblion ag AAA mewn ysgolion cynradd ac uwchradd prif ffrwd.

**Nodau dysgu cytûn**

**Cyflawniad a chyrhaeddiad ym mhynciau craidd a sylfaen y Cwricwlwm Cenedlaethol**

159 Fel rhan o'u gwaith gwella ysgolion, mae awdurdodau'n casglu gwybodaeth gan ysgolion prif ffrwd am y lefelau y mae disgyblion yn eu cyrraedd ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol, mewn arholiadau allanol, fel TGAU a chymwysterau galwedigaethol cyfwerth, ac weithiau, am gyfraddau presenoldeb a gwaharddiadau. Yn gyffredinol, mae awdurdodau yn gwneud defnydd da iawn o'r wybodaeth hon i gymharu cynnydd disgyblion mewn gwahanol ysgolion, i helpu ysgolion i osod targedau gwella ac i herio tanberfformio.

160 Lle mae gwaith arfarnu canlyniadau ar gyfer disgyblion ag AAA yn fwy datblygedig, er enghraifft, yng Ngheredigion, Conwy a Sir y Fflint, mae awdurdodau yn dechrau defnyddio gwybodaeth am gyrhaeddiad yn y Cwricwlwm Cenedlaethol i ddadansoddi'r canlyniadau ar gyfer grwpiau penodol o ddisgyblion, gan gynnwys y rheiny ag AAA mewn ysgolion prif ffrwd.

161 Mae'r awdurdodau gorau yn cynnal cofnodion cywir o gyraeddiadau disgyblion ag AAA, yn aml mewn cronfa ddata electronig soffistigedig, a gallant felly olrhain eu cynnydd yn dda iawn. Fodd bynnag, nid yw awdurdodau yn gallu llunio barnau cadarn am y canlyniadau perthynol ar gyfer disgyblion ag AAA mewn gwahanol ysgolion prif ffrwd mewn perthynas â chyrhaeddiad ym mhynciau craidd a sylfaen y Cwricwlwm Cenedlaethol, oherwydd nad oes ganddynt feincnodau dibynadwy ar gyfer y grŵp hwn o ddisgyblion.

**Cyflawniadau mewn medrau sylfaenol ac allweddol**

162 Mae awdurdodau fel arfer yn cadw cofnodion manwl o'r cynnydd a wna disgyblion ag anawsterau dysgu mewn cyfathrebu, llythrennedd a rhifedd i ymateb i gymorth arbenigol ar gyfer anawsterau dysgu, lleferydd ac iaith a synhwyraidd. Mae'r cofnodion hyn fel arfer yn cael eu cadw gan swyddogion mewn gwasanaethau cymorth canolog. O bryd i'w gilydd, fe'u defnyddir yn sylfaen ar gyfer arfarnu gwasanaeth, ond nid yw hyn yn wir fel arfer.

163 Nid yw awdurdodau fel arfer yn monitro nac yn arfarnu canlyniadau dysgu mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), mewn hyfedredd dwyieithog nac yn y medrau allweddol ehangach, fel gweithio gydag eraill, mewn unrhyw ffordd systematig, p'un a oes gan ddisgyblion AAA ai peidio.

## Bodloni targedau dysgu unigol

164 Yn gyffredinol, mae awdurdodau yn gweithio'n dda mewn partneriaeth â staff ysgolion prif ffrwd i fonitro'r cynnydd a wna disgyblion ag AAA wrth gyflawni targedau a osodwyd yn eu cynlluniau addysg neu ymddygiad unigol. Yn nodweddiadol, mae staff cymorth dysgu neu ymddygiad arbenigol a seicolegwyr addysgol yn trafod cynnydd disgyblion ar gofrestri anghenion arbennig gyda chydlynwyr AAA o leiaf unwaith y flwyddyn, ac weithiau'n amlach na hyn.

165 Mae'r awdurdodau y gwnaed arolwg ohonynt yn bodloni'r gofyniad statudol i gynnal adolygiadau blynyddol ar gyfer disgyblion sydd â datganiadau AAA, ac mae'r broses hon yn cynnwys trafod cynnydd y disgybl mewn perthynas â'r canlyniadau dysgu allweddol a nodwyd ar y datganiad.

166 Mae awdurdodau yn defnyddio gwybodaeth o adolygiadau blynyddol yn dda i arfarnu effaith y ddarpariaeth a wneir ar gyfer disgyblion unigol. Fodd bynnag, nid yw'r math hwn o wybodaeth fel arfer yn cael ei ddefnyddio ar gyfer arfarnu ehangach, er enghraifft ar lefel ysgol neu awdurdod.

## Cynnydd wrth ddysgu

167 Mesur llwyddiant allweddol ar gyfer disgyblion ag AAA yw y dylen nhw a'u rhieni fod yn fodlon bod y ddarpariaeth yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'w dysgu. Mae hefyd yn hanfodol gwybod p'un a yw darpariaeth yn helpu disgyblion i fodloni eu nodau personol, ar unwaith ac yn y tymor hwy. Fodd bynnag, mae diffygion helaeth yn y ffordd y mae awdurdodau yn monitro ac yn arfarnu'r canlyniadau dysgu hyn. Yn benodol, nid ydynt yn cael gwybod gan ysgolion a darparwyr eraill:

- beth mae disgyblion yn ei feddwl am eu cynnydd eu hunain;
- beth mae rhieni'n ei feddwl am gynnydd eu plant;
- p'un a yw disgyblion yn symud ymlaen i'r cam nesaf mewn dysgu yn llwyddiannus; a
- ph'un a yw disgyblion, dros gyfnod, yn cynyddu eu cyfranogiad mewn gweithgareddau addysgol prif ffrwd.

## Barn disgyblion a rhieni

168 Mae awdurdodau ac ysgolion weithiau'n gofyn i ddisgyblion ag AAA, a'u rhieni neu eu gofalwyr, roi sylwadau ar eu cynnydd a'u cyflawniadau. Fodd bynnag, mae'r wybodaeth hon fel arfer wedi'i chyfyngu i'r lleiafrif bach o ddisgyblion sydd â datganiadau AAA, a hyd yn oed wedyn, ni chaiff ei defnyddio yn systematig at ddibenion arfarnu.

### Dilyniant

169 Mae gwendidau eang yn y ffordd y caiff gwybodaeth am ddisgyblion ag AAA ei throsglwyddo rhwng gwahanol ysgolion a darparwyr. Mae’r broses o gofnodi cynnydd yn aml yn mynd yn rhy dameidiog pan fydd disgyblion yn symud:

- o leoliadau’r blynyddoedd cynnar i ysgol;
- rhwng ysgolion;
- i ddarpariaeth y tu allan i’r awdurdod, yn enwedig yn y sector annibynnol;
- o ysgol i ddarpariaeth addysg ar wahân i yn yr ysgol; neu
- i ddarpariaeth ôl-16 fel coleg neu ddysgu yn y gwaith.

170 Nododd yr arolwg enghreifftiau o weithio partneriaeth effeithiol mewn rhai awdurdodau gyda Gyrfa Cymru i olrhain dilyniant ar gyfer disgyblion ag anawsterau ymddygiadol a/neu ar gyfer y rheiny ag anhwylder synhwyraidd. Yn gyffredinol, fodd bynnag, nid yw awdurdodau yn cael gwybod beth sy’n digwydd ar ôl i ddisgyblion adael ysgolion, ac felly nid ydynt yn gallu arfarnu cyflawniadau pwysig mewn addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth.

### Cyfranogiad a chynhwysiad

171 O bryd i’w gilydd, mae gwasanaethau cymorth yn cadw cofnodion o ddisgyblion sy’n dychwelyd i ddarpariaeth addysg ar wahân i yn yr ysgol, er enghraifft. At ei gilydd, fodd bynnag, nid yw awdurdodau yn gwneud digon i fonitro cyfranogiad disgyblion mewn addysg brif ffrwd neu i ddefnyddio’r wybodaeth hon i arfarnu effaith cymorth AAA.

### Medrau personol, cymdeithasol a dysgu

172 Mae bron yr holl wybodaeth sydd ar gael am gyflawniadau disgyblion mewn medrau personol, cymdeithasol a dysgu disgyblion yn cael ei chadw gan ysgolion a lleoliadau blynyddoedd cynnar. Lle mae awdurdodau yn cadw’r wybodaeth hon, mae fel arfer yn cael ei chasglu fel rhan o waith gwasanaethau cymorth canolog o ddydd i ddydd wrth helpu ysgolion prif ffrwd ac arbennig yr awdurdod i drefnu darpariaeth briodol ar gyfer disgyblion ag AAA. Anaml y caiff ei defnyddio, fodd bynnag, i arfarnu canlyniadau dysgu ar gyfer disgyblion ag AAA mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar, ysgolion annibynnol neu ddarpariaeth addysg ar wahân i yn yr ysgol.

### Presenoldeb ac ymddygiad

173 Mae awdurdodau yn cadw gwybodaeth gywir am gyfradd presenoldeb mewn gwahanol ysgolion, ac maent yn gwneud defnydd da o hyn i helpu ysgolion i wella presenoldeb cyffredinol. Fodd bynnag, ychydig iawn o ysgolion ac awdurdodau sy’n defnyddio gwybodaeth lefel disgybl am bresenoldeb i arfarnu effaith ymyriadau penodol ar gyfer disgyblion unigol, neu grwpiau o ddisgyblion, ag AAA.

174 Fel arfer, mae gan awdurdodau gofnodion manwl o'r cynnydd a wna disgyblion ag anawsterau emosiynol ac ymddygiadol i ymateb i waith penodol staff arbenigol, fel athrawon cymorth ymddygiad a seicolegwyr addysgol. Mae gwasanaethau cymorth canolog yn cadw cofnodion da o ganlyniadau dysgu allweddol mewn ymddygiad, perthynas ac agweddau at ddysgu. Fodd bynnag, anaml iawn y mae awdurdodau yn cysylltu'r wybodaeth hon â chanlyniadau dysgu eraill, fel cyrhaeddiad cymwysterau cydnabyddedig, neu ddilyniant llwyddiannus i ddarpariaeth ôl-16, neu i hunanarfarnu ysgolion.

175 Mae astudiaeth achos 4 yn Atodiad 4 yn egluro'r modd y mae gwaith peilot yn Wrecsam a Chaerffili yn helpu ysgolion a swyddogion AALl i fesur agweddau disgyblion atynt eu hunain a'r ysgol gan ddefnyddio offeryn sydd ar gael yn fasnachol, sef PASS.

**Arfarnu canlyniadau darpariaeth wedi'i thargedu**

176 Ceir llawer o enghreifftiau o arfer dda yn y ffordd y mae gwasanaethau arbenigol awdurdodau yn darparu cymorth wedi'i dargedu ar gyfer grwpiau penodol o ddisgyblion ag AAA mewn ysgolion prif ffrwd ac arbennig. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Rhaglenni Dadansoddiad Ymddygiad Cymwysedig (a rhaglenni tebyg) ar gyfer disgyblion ag anhwylder sbectrwm awtistig (ASA);
- cymorth arbenigol mewn symudedd, medrau TGCh a Braille ar gyfer disgyblion â nam ar eu golwg;
- addysgu a chymorth iaith ar gyfer disgyblion â nam ar eu clyw;
- therapi lleferydd ac iaith;
- ymyriadau cyn-ysgol, gan gynnwys addysgu gartref;
- cymorth ar gyfer disgyblion ag anawsterau emosiynol ac ymddygiadol, gan gynnwys unrhyw gydweithio gyda gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc (CAMHS);
- cymorth unigol a grŵp bach ar gyfer disgyblion ag anawsterau dysgu mewn medrau sylfaenol; a
- mentrau awdurdod cyfan a/neu ysgol gyfan i wella canlyniadau ar gyfer disgyblion â dyslecsia neu anawsterau ymddygiadol.

177 Mae awdurdodau yn gyffredinol yn arfarnu effaith y rhaglenni hyn o ran y ddarpariaeth sydd gan ysgolion ar gyfer disgyblion ag AAA. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o astudiaethau arfarnu yn methu nodi pa wahaniaeth a wna'r ymyriad i ganlyniadau dysgu. Er enghraifft, roedd un awdurdod wedi arfarnu effaith defnyddio disgyblaeth bendant fel strategaeth rheoli ymddygiad. Pennodd arfarniad yr awdurdod fod y rhaglen yn helpu athrawon i reoli ymddygiad heriol gyda mwy o hyder a chysondeb, ond nid oedd yn dweud bod ymddygiad a dysgu disgyblion wedi gwella o ganlyniad.

178 Mae enghreifftiau da o arfarnu effaith darpariaeth benodol ar ganlyniadau dysgu yn cynnwys y rheiny yn astudiaethau achos 5 a 6 yn Atodiad 4. Mae astudiaeth achos 5 yn disgrifio’r modd y mae gwasanaeth Rhanbarthol Gwent yn defnyddio deunyddiau Prosiect Oregon i fonitro ac arfarnu’r cynnydd a wna plant cyn-ysgol sydd â nam ar eu golwg. Mae astudiaeth achos 6 yn disgrifio’r modd y mae staff arbenigol o wahanol asiantaethau yn Sir Ddinbych yn gweithio fel tîm i arfarnu effaith rhaglen ymyriad cynnar ar gyfer plant awtistig ifanc iawn.

## Mapio darpariaeth arbenigol mewn awdurdodau ac ysgolion

179 Mae awdurdodau'n darparu ac yn ariannu ystod eang o ddarpariaeth arbenigol ar gyfer disgyblion ag AAA sy'n cynnwys:

- addysgu a chymorth ychwanegol a ddarperir gan ysgolion prif ffrwd a gynhelir gan ddefnyddio'u cyllidebau dirprwyedig;
- darpariaeth mewn ysgolion arbennig, unedau cyfeirio disgyblion ac mewn darpariaeth addysg ar wahân i yn yr ysgol;
- asesu, cyngor, addysgu, cymorth arbenigol ac offer arbennig, gan gynnwys gwasanaethau ar gyfer plant cyn-ysgol, a ariennir yn uniongyrchol gan yr AALl o gyllideb a gedwir yn ganolog;
- gwasanaethau a ddarperir gan asiantaethau allanol neu wasanaethau a rennir ag awdurdod arall, er enghraifft, ar gyfer therapi lleferydd ac iaith neu addysgu arbenigol ar gyfer disgyblion â llai o anghenion; a
- ffioedd a delir am leoliadau arbenigol, yn aml yn y sector annibynnol, ar gyfer disgyblion ar ddatganiad a phlant y gofelir amdanynt sydd ag anghenion emosiynol, cymdeithasol, ymddygiadol a dysgu cymhleth iawn.

180 Fel arfer, mae gan awdurdodau gofnodion da o'r ddarpariaeth a wnânt ar gyfer disgyblion unigol yn eu hysgolion a gynhelir eu hunain. Fodd bynnag, ceir diffygion yn y ffordd y mae awdurdodau yn monitro ac yn arfarnu darpariaeth AAA ar gyfer rhai o'r disgyblion sydd fwyaf agored i niwed, gan gynnwys y rheiny a addysgir ar wahân i yn yr ysgol, mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdodau eraill ac mewn ysgolion annibynnol.

181 Anaml iawn y ceir cofnod unigol o'r ddarpariaeth ar gyfer pob disgybl ar ffurf a fyddai'n galluogi awdurdodau i wneud dadansoddiad cynhwysfawr neu fanwl o'r ddarpariaeth gyffredinol a wnânt ar gyfer disgyblion â mathau tebyg o AAA, neu ar gyfer disgyblion mewn ysgolion tebyg.

182 Mae diffyg trosolwg o'r fath yn golygu nad yw ysgolion, awdurdodau a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gallu cysylltu gwybodaeth am ddarpariaeth â gwybodaeth am ganlyniadau dysgu a chostau at ddibenion arfarnu. Mae hefyd yn ei gwneud yn anodd cymharu'r canlyniadau ar gyfer dysgwyr mewn gwahanol ysgolion ac awdurdodau.

183 Mae diwygio arfaethedig gwybodaeth CYBLD ar gyfer disgyblion ag AAA wedi'i gynllunio i helpu mynd i'r afael â'r mater yn y tymor hwy. O fis Ionawr 2008, bydd yn ofynnol i ysgolion ddarparu gwybodaeth am y graddau y gwneir darpariaeth arbennig ar gyfer pob disgybl ag AAA, mewn perthynas â:

- chwricwlwm ac addysgu;

- grwpio a chymorth;
- adnoddau arbenigol; a
- chyngor ac asesu.

184 Ar ddechrau 2006, cynhaliwyd astudiaeth beilot gan swyddogion a chydlynwyr anghenion addysgol arbennig ym Mlaenau Gwent a fu o gymorth i ddatblygu'r arweiniad ar gofnodi darpariaeth mewn CYBLD ar gyfer y categorïau newydd hyn. Mae'r awdurdod wedi parhau i ddefnyddio'r categorïau hyn yn effeithiol i gofnodi manylion am ei ddarpariaeth AAA ar gyfer disgyblion mewn ysgolion prif ffrwd, fel a eglurir yn astudiaeth 2 yn Atodiad 4.

## Nodi costau darpariaeth AAA

185 Mae'r fframwaith arolygu a hunanarfarnu ar gyfer gwasanaethau awdurdod lleol (Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru , 2006) yn cynnwys, mewn perthynas â'r gwasanaethau a ddarperir ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol, y nodweddion da nodweddiadol canlynol:

*Mae'r Cyngor yn cymharu ei gostau a'i ganlyniadau â chostau a chanlyniadau awdurdodau eraill a gall ddangos bod plant a phobl ifanc ag ADY yn cyflawni canlyniadau da mewn perthynas â chostau'r gwasanaethau y mae'n eu darparu.*

*Lle mae'r Cyngor yn comisiynu cymorth ar gyfer disgyblion ag ADY o asiantaethau allanol, gall ddangos bod canlyniadau yn dda a'i fod yn cyflawni gwerth am arian.*

**Costau darpariaeth AAA**

186 Mae Cyfarwyddiaeth Ystadegol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn amcangyfrif bod cynghorau yng Nghymru wedi gosod cyllidebau o bron i £288 miliwn ar gyfer darpariaeth AAA mewn ysgolion ar gyfer 2006/07, sef cynnydd o 10.4% ar 2005/2006. Mae cyllidebau AAA yn tyfu'n llawer cyflymach na chyllidebau ar gyfer agweddau eraill ar ddarpariaeth ysgol.

*(Gwariant wedi'i gyllidebu ar ddarpariaeth AAA: SDR 80/2006, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Gorffennaf 2006)*

187 Mae'r cynghorau yn gwario'r arian hwn mewn ystod eang o ffyrdd, ond mae gwybodaeth am y mathau o weithredu a darpariaeth sy'n cynrychioli'r gwerth gorau am arian mewn gwahanol amgylchiadau yn gyfyngedig.

*(Swyddfa Archwilio Cymru, Hydref 2006)*

**Canfyddiadau'r arolwg**

188 Mae gan bump o'r deg awdurdod y gwnaed arolwg ohonynt wybodaeth gywir a chynhwysfawr am gostau darpariaeth AAA, ar lefel awdurdod cyfan ac ar lefel ysgol. Mae'r awdurdodau hyn yn gweithio i wella tryloywder systemau ariannu AAA, ond nid ydynt eto yn gwybod costau pob math o ddarpariaeth. Yn nodweddiadol, mae'r awdurdodau hyn yn gwybod costau cyffredinol darpariaeth AAA, maent yn glir ynghylch faint o gyllid a ddyrennir i bob ysgol ac maent yn gwybod bod costau llawer o'r ddarpariaeth a wna'r awdurdod yn uniongyrchol o gyllidebau canolog. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn cyfrifo cyfanswm cost darpariaeth arbennig pob disgybl, ac nid ydynt felly yn gallu llunio barnau cadarn am gost effeithiolrwydd gwahanol fathau o ddarpariaeth mewn perthynas â chanlyniadau dysgu.

189 Mae astudiaeth achos 1 yn Atodiad 4 yn egluro'r modd y mae defnyddio system rheoli data CRIS2 yn effeithiol yn galluogi gwariant AAA yng Nghaerffili i fod yn hynod dryloyw. Trwy fonitro ac arfarnu manwl, mae swyddogion a phenaethiaid yn gwybod yn union faint o arian a ddyrennir i gefnogi pob disgybl ag AAA. Mae swyddogion yn monitro'r gwariant ar ddisgyblion â gwahanol fathau o AAA, ac maent

yn defnyddio’r wybodaeth hon i wella effeithlonrwydd y gwasanaeth. Mae gan yr awdurdod weithdrefnau trylwyr ar gyfer dyrannu, monitro a dadansoddi’r broses o ddefnyddio cyllid AAA yn ei ysgolion ac yn eu timau cymorth canolog. Mae’n gofyn i wasanaethau ysgolion a gwasanaethau canolog gyfrif am yr holl wariant, mae’n disgwyl gweld tystiolaeth bod cyllid AAA yn cael ei ddefnyddio yn effeithiol ac y bydd yn cael ei ailgylchu wrth i ddisgyblion wella digon i ostwng lefelau cymorth.

190 Bydd yr astudiaeth barhaus gan Swyddfa Archwilio Cymru yn rhoi mwy o fanylder am y maes hwn o waith awdurdodau lleol.

## Cysylltiadau â gwella ysgol a hunanarfarnu

191 Mae awdurdodau wedi sefydlu cysylltiadau effeithiol rhwng gwaith swyddogion gwella ysgol a gwaith staff mewn gwasanaethau cynhwysiad a chymorth AAA canolog. Mae awdurdodau yn rhoi cyfeiriad a chymorth clir i ysgolion ar gyfer asesu, gosod targedau a hunanarfarnu. Yn yr awdurdodau gorau, mae hyn yn cynnwys arweiniad ar ddefnyddio data i arfarnu canlyniadau dysgu ar gyfer grwpiau wedi'u targedu o ddisgyblion ac mae wedi'i gysylltu'n dda â Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn.

192 Mae astudiaeth achos 1 yn Atodiad 4 yn cynnwys manylder am y ffordd y mae proffil CRIS2 yn galluogi ysgolion cynradd ac uwchradd i arfarnu ansawdd ac effaith eu darpariaeth AAA.

193 Yn Sir y Fflint, mae'r awdurdod wedi sefydlu set ddata gyffredin o ddangosyddion perfformiad lleol sy'n ei alluogi i gysylltu arfarniad o waith y gwasanaethau cymorth cynhwysiad canolog ag arfarniad o'r canlyniadau dysgu ar gyfer disgyblion ag AAA ar draws ei ysgolion uwchradd prif ffrwd, fel a ddisgrifir yn astudiaeth achos 3 yn Atodiad 4.

194 Mae awdurdodau yn rhoi hyfforddiant a chymorth da, sydd weithiau'n rhagorol, i ysgolion i helpu i wella canlyniadau ar gyfer disgyblion ag AAA. Fodd bynnag, mae pwyslais llawer o'r hyfforddiant a'r cymorth hwn ar ddarpariaeth, yn hytrach nag ar arfarnu canlyniadau dysgu.

195 Mae rhai awdurdodau yn dechrau rhoi cyngor a hyfforddiant penodol i ysgolion ar sut i fonitro ac arfarnu'r canlyniadau dysgu ar gyfer disgyblion ag AAA. Mae'r hyfforddiant hwn weithiau'n cynnwys gwybodaeth am sut i ddehongli data mewn perthynas â lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol a gwneud cynnydd mewn llythrennedd a rhifedd. Mae astudiaeth achos 7 yn Atodiad 4 yn dangos sut mae'r awdurdod, ym Mlaenau Gwent, yn hyfforddi ysgolion mewn defnyddio data CYBLD ac FFT i gefnogi hunanarfarnu ysgol.

## Casgliad

196 Mae arfarnu canlyniadau ar gyfer dysgwyr ag AAA yn dasg gymhleth a heriol. Er bod yr adroddiad hwn yn nodi sawl enghraifft o arfer dda sy'n dod i'r amlwg, mae angen gwneud llawer o hyd i greu system unol i gefnogi'r broses o arfarnu canlyniadau ar gyfer dysgwyr ag AAA ledled Cymru.

197 Yng nghyfnod nesaf y gwaith hwn, mae Estyn a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu arweiniad ar gyfer ysgolion a darparwyr eraill ar sut i weithredu'r argymhellion yn yr adroddiad hwn.

## Atodiad 1:  Strwythur, amseru a sail dystiolaeth y gwaith

### Cyfnod 1:  mis Ebrill 2005 i fis Mawrth 2006

Roedd cyfnod cyntaf y gwaith:

- yn egluro cwmpas y prosiect;
- yn ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol;
- yn adolygu llenyddiaeth berthnasol, gan gynnwys adroddiadau arolygu;
- yn nodi enghreifftiau o arfer dda sy’n ymddangos; ac
- yn nodi blaenoriaethau ar gyfer gwaith pellach.

### Rhanddeiliaid allweddol

Ymgynghorodd Estyn ag ystod eang o randdeiliaid fel rhan o’r gwaith hwn.  Roedd y rhanddeiliaid hyn yn cynnwys:

- cynrychiolwyr ysgolion, cynrychiolwyr ysgolion, AALlau, y sector gwirfoddol a Gyrfa Cymru;
- swyddogion yn yr Adran Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ac yn Uned Data Llywodraeth Leol i Gymru; ac
- Ymddiriedolaeth Teulu Fischer.

Yn ogystal, ymgynghorodd Estyn ag arolygwyr yn Ofsted ac yn Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg (HMiE), yr Alban.

### Adolygiad llenyddiaeth

Mae’r adroddiad yn defnyddio ystod eang o wybodaeth gyhoeddedig sy’n cynnwys:

- Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn, Arweiniad ar Wrando ar Ddysgwyr ac Arweiniad ar Hunanarfarnu;
- Fframwaith ac Arweiniad Estyn ar gyfer Arolygu Awdurdodau Addysg Lleol (AALlau);
- arolygiadau o wasanaethau AAA ym mhob AALl yng Nghymru yn y cyfnod 2002-2006;
- arolygiadau o ysgolion prif ffrwd, arbennig ac annibynnol yng Nghymru yn y cyfnod 2004-2006;

- cyhoeddiadau Estyn ar gymorth ar gyfer plant a phobl ifanc ag AAA; a

- gwybodaeth gefndir bellach, fel a restrir yn y llyfryddiaeth.

**Cyfnod 2: mis Ebrill 2006 i fis Mawrth 2007**

Roedd ail gyfnod y gwaith:

- yn parhau â'r ymgynghori â grŵp o randdeiliaid;

- yn parhau â'r adolygiad o lenyddiaeth;

- yn rhoi arweiniad drafft ar gyfer ysgolion ac AALlau i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar sut i gofnodi gwybodaeth am ddisgyblion ag AAA yn y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgybl (CYBLD); ac

- yn ymchwilio i arfer gyfredol mewn ysgolion ac AALlau yng Nghymru.

Roedd y cyfnod hwn o'r gwaith yn cynnwys arolwg o ddeg AALl yng Nghymru lle'r oedd arfer dda mewn darparu cymorth AAA eisoes wedi cael ei nodi. Yn ystod mis Hydref a mis Tachwedd 2006, ymwelodd arolygwyr o Estyn a chwech o'r awdurdodau hyn, ac fe wnaethant ddarllen dogfennaeth ar gyfer y pedwar awdurdod arall.

Y cwestiwn allweddol ar gyfer yr arolwg oedd:

- Pa mor dda y mae awdurdodau lleol yn monitro ac yn arfarnu'r canlyniadau addysgol ar gyfer disgyblion ag AAA y maent yn trefnu darpariaeth wedi'i hariannu ar eu cyfer?

Roedd yr arolwg yn cynnwys yr agweddau canlynol ar waith yr awdurdodau.

(a) Y graddau y mae gan awdurdodau a'u hysgolion gofnod cywir sydd ar gael yn hawdd o hunaniaeth ac anghenion disgyblion ag AAA, y ddarpariaeth a wnânt, naill ai yn uniongyrchol neu drwy ysgolion, a chostau'r ddarpariaeth honno.

(b) P'un a yw awdurdodau yn casglu ac yn dadansoddi data ar ganlyniadau ar gyfer disgyblion unigol ag AAA.

(c) Y graddau y mae awdurdodau ac ysgolion yn defnyddio mesurau canlyniad priodol i arfarnu effaith ymyriadau penodol.

(ch) Y graddau y mae'r awdurdod yn cysylltu'r arfarniad o ganlyniadau ar gyfer disgyblion ag AAA â gwella ysgolion yn gyffredinol, gan gynnwys darparu arweinyddiaeth, cymorth a hyfforddiant ar gyfer ysgolion mewn defnyddio data yn effeithiol.

**Cyfnod 3: mis Ebrill 2007 ymlaen**

Yn ystod cyfnod 3, bydd Estyn yn rhoi mwy o gyngor, os yw hynny'n ofynnol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, i adeiladu ar ganfyddiadau cyfnodau 1 a 2 o'r gwaith hwn.

## Atodiad 2: Nodweddion mathau o AAA

Mae'r wybodaeth yn yr atodiad hwn hefyd wedi'i chynnwys yn: Arweiniad i gefnogi anghenion addysgol arbennig disgyblion ar gronfa ddata CYBLD. (Mewn drafft, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006)

### A1 GWYBYDDIAETH A DYSGU

#### A1.1 Anhawster Dysgu Penodol (ADP)

Term ymbarél yw anawsterau dysgu penodol sy'n nodi bod disgyblion yn dangos gwahaniaethau ar draws eu dysgu. Efallai bod gan ddisgyblion ag ADP anhawster penodol mewn dysgu darllen, ysgrifennu, sillafu neu drin rhifau fel bod eu perfformiad yn y meysydd hyn islaw eu perfformiad mewn meysydd eraill. Efallai bod disgyblion hefyd yn cael problemau â:

- medrau rheoli symud bach neu fawr;
- tasgau yn cynnwys galluoedd penodol fel dilyniant, trefn neu alluoedd seinyddol neu gof tymor byr;
- datblygiad iaith;
- ffurfio cysyniadau, yn enwedig pan fo gwybodaeth yn gofyn am brofiadau synhwyraidd uniongyrchol; a
- rhwystredigaeth a/neu hunan-barch isel ar ffurf anawsterau ymddygiad mewn rhai achosion.

Mae disgyblion ag ADP yn cynnwys yr ystod gallu cyfan, ac mae difrifoldeb eu hanhawster dysgu yn amrywio'n eang.

Mae anawsterau dysgu penodol yn cynnwys:

**Dyslecsia**

Gallai disgyblion â dyslecsia fod yn barod i ddysgu mewn rhai o feysydd y cwricwlwm ond cânt anhawster nodedig a parhaus mewn caffael cywirdeb neu rugldeb mewn dysgu darllen, ysgrifennu a sillafu. Efallai bod gan ddisgyblion ddealltwriaeth wael o ddarllen, llawysgrifen ac atalnodi. Efallai eu bod hefyd yn cael anawsterau yn canolbwyntio ac yn trefnu ac yn cofio dilyniannau gwaith. Gallent gam-ynganu geiriau cyffredin, neu roi llythrennau a seiniau mewn geiriau o chwith.

**Dyscalcwlia**

Mae disgyblion â dyscalcwlia yn cael anhawster yn caffael medrau mathemategol. Gallai disgyblion gael anhawster yn deall cysyniadau rhif syml, efallai nad oes

ganddynt amgyffrediad greddfol o rifau a'u bod yn cael problemau yn dysgu ffeithiau a gweithdrefnau rhif.

### Dyspracsia

Nam neu anaeddfedrwydd trefniadaeth symudiadau sy'n effeithio ar ddisgyblion â dyspracsia, ac mae'n aml yn ymddangos eu bod yn lletchwith. Maent yn ei chael yn anodd dysgu medrau symud bach a mawr ac yn ei chael yn anodd cadw a chyffredinoli. Mae eu cydbwysedd a'u cyd-drefniant yn wael, ac mae ganddynt ymwybyddiaeth wael o safle'r corff. Gallai eu hiaith fod yn hwyr yn datblygu, ac efallai eu bod yn ynganu'n anaeddfed.

### A1.2 Anhawster Dysgu Cymedrol (ADC)

Bydd cyraeddiadau disgyblion ag anawsterau dysgu cymedrol yn llawer is na'r lefelau disgwyliedig ar gyfer disgyblion oedran tebyg ym mhob un neu rai o feysydd y cwricwlwm, er gwaethaf ymyriadau priodol. Cânt lawer mwy o anhawster na'u cyfoedion mewn caffael medrau llythrennedd a rhifedd sylfaenol, mewn deall cysyniadau, mewn delio â syniadau haniaethol a chyffredinoli o brofiad. Efallai bod ganddynt broblemau hefyd â:

- datblygu medrau lleferydd ac iaith;
- hunan-barch isel;
- canolbwyntio a sylw; a
- medrau cymdeithasol.

### A1.3 Anhawster Dysgu Difrifol (ADD)

Mae gan ddisgyblion ag anawsterau dysgu difrifol nam deallusol neu wybyddol arwyddocaol. Caiff hyn effaith fawr ar eu gallu i gymryd rhan yn y cwricwlwm ysgol heb gymorth. Efallai bod ganddynt anawsterau cysylltiedig hefyd mewn symudedd a chyd-drefniant, cyfathrebu a chanfod a chaffael medrau hunangymorth.

Bydd angen cymorth ar ddisgyblion ag ADD ym mhob un o feysydd y cwricwlwm. Mae'n debygol y bydd angen addysgu hunangymorth, annibyniaeth a medrau cymdeithasol iddynt. Gallai rhai disgyblion ddefnyddio arwyddion a symbolau ond bydd y rhan fwyaf ohonynt yn gallu cynnal sgyrsiau syml ac ennill rhai medrau llythrennedd. Gallai eu cyraeddiadau fod islaw lefel 1 o'r Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer llawer o'u gyrfaoedd ysgol.

### A1.4 Anhawster Dysgu Dwys a Lluosog (ADDLl)

Mae gan ddisgyblion ag anawsterau dysgu dwys a lluosog nam gwybyddol dwys/anhawster dysgu, sy'n arwain at oedi sylweddol wrth gyrraedd cerrig milltir datblygiadol. Yn ychwanegol, maent yn dangos un neu fwy o'r canlynol:

- namau symud arwyddocaol;

- namau synhwyraidd arwyddocaol; a/neu

- anghenion gofal iechyd cymhleth/dibyniaeth ar dechnoleg.

Mae rhyngberthynas yr anableddau hyn yn cynyddu cymhlethdod angen, sydd yn ei dro yn effeithio ar bob maes dysgu.

Mae angen cwricwlwm nodedig ar ddisgyblion ag ADDLl i'w helpu i ddatblygu medrau synhwyraidd, symud, cymdeithasol a chyfathrebu trwy eu gyrfaoedd ysgol, ac i fywyd oedolyn. Mae rhai disgyblion yn cyfathrebu trwy ystumiau, pwyntio â llygad neu symbolau, eraill trwy ddefnyddio iaith syml. Mae angen lefel uchel iawn o gymorth oedolion ar ddisgyblion, ar gyfer eu hanghenion dysgu ac ar gyfer eu gofal personol hefyd.

## A2 ANAWSTERAU YMDDYGIADOL, EMOSIYNOL A CHYMDEITHASOL (ADECh)

Mae disgyblion ag anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol yn cynnwys yr ystod gallu llawn, a chontinwwm difrifoldeb. Mae eu hanghenion a'u hymddygiad emosiynol yn rhwystr at ddysgu ac maent yn parhau er gwaethaf gweithredu polisi ymddygiad ysgol effeithiol, cymorth bugeiliol a'r cwricwlwm personol/cymdeithasol.

Gallai disgyblion fod:

- yn encilgar neu'n ynysig;

- yn aflonyddgar ac yn tarfu;

- yn orfywiog ac yn methu canolbwyntio;

- yn anaeddfed o ran medrau cymdeithasol;

- ddim yn gallu ffurfio a chynnal perthynas gadarnhaol â chyfoedion a/neu oedolion; a/neu

- yn ymddwyn mewn modd heriol.

Dylid cofnodi disgyblion ag anawsterau iechyd meddwl, gan gynnwys iselder, anhwylderau bwyta, anhwylder sbectrwm awtistig (ASA) ac anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD) fel ADECh os oes trefniadau addysgol ychwanegol neu wahanol yn cael eu gwneud i'w cefnogi.

## A3 ANAWSTERAU CYFATHREBU A RHYNGWEITHIO

### A3.1 Anawsterau Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu (ALlICh)

Mae disgyblion ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn cynnwys yr ystod oedran cyfan. Cânt anhawster yn deall a/neu yn gwneud i eraill ddeall gwybodaeth sy'n cael ei chyfleu trwy iaith lafar.

Gallai anawsterau lleferydd ac iaith ymddangos yn y ffyrdd canlynol:

- problemau â chynhyrchu lleferydd;
- anhawster yn dod o hyd i eiriau a'u huno â'i gilydd mewn iaith ystyriol a mynegiannol;
- problemau wrth gyfathrebu trwy leferydd a mathau eraill o iaith;
- anawsterau neu oedi wrth ddeall neu ymateb i giwiau llafar eraill;
- anawsterau â chaffael a mynegi meddyliau a syniadau;
- anhawster wrth ddeall a defnyddio iaith gymdeithasol briodol; a
- rhwystredigaeth a phryderon yn deillio yn sgil methu cyfathrebu, sydd o bosibl yn arwain at anawsterau ymddygiadol amlwg a pherthynas gymdeithasol a chyda chyfoedion yn dirywio.

Sylwch na ddylid cofnodi bod disgyblion nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf yn ALIICh oni bai bod ganddynt angen addysgol arbennig yn y maes hwn hefyd.

### A3.2 Anhwylderau Sbectrwm Awtistig (ASA)

Caiff anhwylderau sbectrwm awtistig eu nodweddu gan dri math o anhwylder mewn perthynas gymdeithasol, cyfathrebu cymdeithasol a meddwl dychmygus, a gallent ymddangos yn y ffyrdd canlynol:

- anawsterau wrth addasu i sefyllfaoedd cymdeithasol ac ymateb i giwiau amgylcheddol arferol;
- tystiolaeth o agendâu personol sy'n ymddangos nad ydynt yn gynyddol atebol i gyfarwyddyd oedolion;
- tuedd i dynnu'n ôl o sefyllfaoedd cymdeithasol a goddefoldeb ac absenoldeb menter cynyddol;
- rhyngweithio cymdeithasol wedi'i atal, ei leihau neu'n amhriodol sy'n ymestyn i ymddygiad hynod hunanganolog heb ymwybyddiaeth o anghenion neu emosiynau eraill;
- defnyddio iaith yn ddiffygiol, naill ai mynegiannol neu dderbyngar; gallai hyn gynnwys goslef rhyfedd, dehongliadau llythrennol ac ymadroddion hynod a gallai ymestyn i ffurfiau mynegiannol a mwy od a mynegiant cyfyngedig, gan leihau'r potensial am gyfathrebu dwy ffordd; a
- chyfyngiadau mewn gweithgareddau cyfoedion mynegiannol neu greadigol sy'n ymestyn at ddiddordebau obsesiynol neu weithgareddau ailadroddus.

Mae disgyblion ag anhwylder sbectrwm awtistig yn cynnwys yr ystod gallu llawn ac mae difrifoldeb eu hanhwylder yn amrywio'n eang. Mae gan rai disgyblion anawsterau neu anableddau dysgu eraill, sy'n golygu ei fod yn anodd ei adnabod.

Mae nifer o grwpiau yn y sbectrwm awtistiaeth. Dylid cofnodi disgyblion â syndrom Asperger yn y categori hwn.

## A4 ANAWSTERAU SYNHWYRAIDD A CHORFFOROL

### A4.1 Nam ar y Clyw (NC)

Mae disgyblion â nam ar eu clyw yn amrywio o'r rheiny sydd wedi colli ychydig bach o'u clyw i'r rheiny sy'n ddifrifol fyddar. Mae disgyblion yn cynnwys yr ystod gallu cyfan.

Mae'n bosibl i arbenigwyr asesu a meintoli disgyblion sydd wedi colli eu clyw ac mewn llawer o achosion, bydd hyn wedi cael ei wneud cyn i blant gyrraedd oed ysgol gorfodol. Fodd bynnag, nid yw'r lefel colli clyw yn pennu lefel yr anhawster a gaiff disgyblion yn yr ysgol. Rhaid ei nodi ochr yn ochr â dangosyddion eraill sydd wedi'u cysylltu'n fwy uniongyrchol â'r ystafell ddosbarth.

At ddibenion addysgol, ystyrir bod gan ddisgybl nam ar ei glyw/chlyw os oes angen teclynnau clyw arno ef neu arni hi, addasiadau i'w hamgylchedd a/neu strategaethau addysgu penodol er mwyn cael mynediad at gysyniadau ac iaith y cwricwlwm.

### A4.2 Nam ar y Golwg (NG)

Mae disgyblion â nam ar eu golwg yn amrywio o'r rheiny sy'n gweld yn rhannol i'r rheiny sy'n ddall. Mae disgyblion yn cynnwys yr ystod gallu cyfan.

Mae'n bosibl i arbenigwyr asesu a meintoli disgyblion sydd wedi colli eu golwg ac mewn llawer o achosion, bydd hyn wedi cael ei wneud cyn i blant gyrraedd yr oed ysgol statudol. Fodd bynnag, nid yw lefel y nam ar y golwg gweledol ynddo'i hun yn pennu lefel yr anhawster a gaiff disgyblion yn yr ysgol. Rhaid ei nodi ochr yn ochr â dangosyddion eraill sydd wedi'u cysylltu'n fwy uniongyrchol â'r ystafell ddosbarth.

At ddibenion addysgol, ystyrir bod gan ddisgybl nam ar ei (g)olwg os oes angen addasu ei amgylchedd ef/ei hamgylchedd hi neu fod angen gwahaniaethu deunyddiau dysgu yn benodol i gael mynediad at y cwricwlwm.

### A4.3 Nam amlsynhwyraidd (NAS)

Mae gan ddisgyblion sydd â nam amlsynhwyraidd gyfuniad o anawsterau gweld a chlywed. Cyfeirir atynt weithiau fel byddar a dall, ond efallai eu bod yn gweld a/neu yn clywed ychydig bach. Mae gan lawer anableddau ychwanegol hefyd ond mae eu hanghenion cymhleth yn golygu y gallai fod yn anodd cadarnhau eu galluoedd deallusol.

### A4.4 Anawsterau Corfforol a Meddygol (ACM)

Ceir ystod eang o anawsterau corfforol a meddygol, rhai dros dro ac eraill yn barhaol. Mae disgyblion yn cynnwys yr ystod gallu cyfan.

Nid yw rhai plant sydd ag anawsterau corfforol neu feddygol yn cael unrhyw broblemau mewn cael mynediad at y cwricwlwm a dysgu yn effeithiol. Mewn achosion o'r fath, felly, nid yw cael diagnosis meddygol yn unig yn awgrymu bod gan y plentyn anghenion addysgol arbennig.

Ar y llaw arall, mae rhai plant yn dechrau'r ysgol gydag anghenion corfforol nodedig neu ddiagnosis meddygol ac anawsterau meddygol a ddeellir yn dda. Efallai eu bod wedi cael asesiad addysgol ac ymyriad addysgol cynnar, ac efallai bod ganddynt ddatganiad o angen addysgol arbennig hefyd. Mae'n amlwg bod angen i ysgolion fonitro eu hanghenion *addysgol* yn ofalus iawn, ond byddant eisoes yn effro iawn i'r gofyniad hwn.

Mae nifer o gyflyrau meddygol yn gysylltiedig ag anabledd corfforol sy'n gallu effeithio ar symudedd disgybl. Mae'r cyflyrau hyn yn cynnwys parlys yr ymennydd, spina bifida a dystroffi'r cyhyrau. Efallai bod gan ddisgyblion sydd ag anableddau corfforol hefyd namau synhwyraidd, problemau niwrolegol neu anawsterau dysgu.

Gall effaith anawsterau corfforol neu feddygol ar addysg plentyn sy'n amrywio o ysgafn i ddifrifol ddod yn amlwg yn y ffyrdd canlynol:

- tystiolaeth o anawsterau mewn meysydd eraill o angen addysgol arbennig fel a nodir mewn mannau eraill yn yr arweiniad hwn;

- effaith yr anhawster corfforol neu feddygol ar hyder, hunan-barch, sefydlogrwydd emosiynol y disgybl neu ei berthynas â chyfoedion;

- effaith yr anhawster corfforol neu feddygol ar berfformiad yn yr ystafell ddosbarth (er enghraifft, trwy gysgadrwydd, diffyg canolbwyntio, diffyg cymhelliant); ac

- effaith yr anhawster corfforol neu feddygol ar gymryd rhan yng ngweithgareddau'r cwricwlwm.

## Atodiad 3: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni? (Estyn, Fframwaith Arolygu Cyffredin, Cwestiwn Allweddol 1)

| Dylai arolygwyr arfarnu ac adrodd ar y safonau a gyflawnir gan ddysgwyr, gan gynnwys: | Wrth lunio'u barnau, dylai arolygwyr ystyried, pan fo hynny'n berthnasol, i ba raddau y mae dysgwyr yn: |
|---|---|
| • **eu llwyddiant wrth gyrraedd nodau dysgu cytûn** | *1.1 cyflawni safonau da o ran eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau;*<br>*1.2 cyflawni targedau a nodau dysgu cytûn;*<br>*1.3 cyrraedd lefelau priodol mewn medrau allweddol, gan gynnwys cymhwysedd dwyieithog; a*<br>*1.4 llwyddo beth bynnag fo'u cefndir cymdeithasol, ethnig neu ieithyddol.*<br>ac i ba raddau y mae:<br>*1.5 canlyniadau a chyfraddau cadw yn cymharu'n dda â'r cyfartaledd cenedlaethol a meincnodau lleol a chenedlaethol; ac*<br>*1.6 mae tueddiadau o ran perfformiad yn dangos gwelliant parhaus neu y cynhelir safonau uchel.* |
| • **eu cynnydd wrth ddysgu** | *1.7 dysgu gwybodaeth neu fedrau newydd, yn datblygu syniadau ac yn cynyddu eu dealltwriaeth;*<br>*1.8 deall yr hyn y maent yn ei wneud, pa mor dda yw eu cynnydd a'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella; a*<br>*1.9 gwneud cynnydd da tuag at gyflawni eu potensial a symud ymlaen i'r cyfnod dysgu nesaf.* |
| • **datblygiad eu medrau personol, cymdeithasol a dysgu** | *1.10 dangos cymhelliant, gweithio'n gynhyrchiol a defnyddio'u hamser yn effeithiol;*<br>*1.11 ymddwyn yn gyfrifol ac yn parchu eraill;*<br>*1.12 cyflawni lefelau uchel o bresenoldeb a phrydlondeb;*<br>*1.13 datblygu'r gallu i weithio'n annibynnol, gan gynnwys y medrau angenrheidiol i gynnal dysgu gydol oes;*<br>*1.14 gwneud cynnydd da yn eu datblygiad personol, cymdeithasol, moesol a'u datblygiad ehangach;*<br>*1.15 dangos ymwybyddiaeth o faterion cyfle cyfartal a pharch at amrywiaeth mewn cymdeithas; ac*<br>*1.16 yn barod i gymryd rhan yn effeithiol yn y gweithle a'r gymuned.* |

## Atodiad 4: Astudiaethau achos awdurdodau addysg lleol

**Astudiaeth achos 1: Caerffili**

Proffil Hunanarfarnu Anghenion Addysgol Arbennig (CRIS2) yw CRIS2 a ddatblygwyd gan bartneriaeth rhwng y gwasanaeth ymgynghorol, ESIS, a phedwar awdurdod lleol yn Ne Cymru: Caerffili, RhCT, Pen-y-bont ar Ogwr a Merthyr Tudful.

Mae'r proffil yn galluogi ysgolion cynradd ac uwchradd, gan gynnwys y rheiny sydd â chanolfan adnoddau dynodedig, i arfarnu ansawdd ac effaith eu darpariaeth anghenion addysgol arbennig, sy'n gysylltiedig â'r saith cwestiwn allweddol yn fframwaith arolygu Estyn.

Mae taenlenni CRIS2 ar gyfer pob ysgol yn cofnodi:

- niferoedd disgyblion a gwybodaeth sylfaenol am staffio;
- gwybodaeth benodol am ddisgyblion a'u AAA (cymerwyd o CYBLD);
- incwm dirprwyedig ar gyfer AAA; a
- gwariant ar AAA.

Gellir dadansoddi'r proffil data a'i ddefnyddio i lywio'r ffordd y mae ysgolion ac awdurdodau yn gwella'r broses o gynllunio darpariaeth ar gyfer disgyblion ag AAA.

Er nad yw arweiniad CRIS2 yn cynnwys set ddata gyffredin o ddangosyddion perfformiad lleol, mae'n cynghori ysgolion i ystyried effaith darpariaeth ar:

- gynnydd disgyblion wrth ddatblygu medrau allweddol;
- cynnydd disgyblion wrth ddatblygu medrau personol, cymdeithasol a dysgu;
- cynnydd disgyblion mewn gwella ymddygiad;
- presenoldeb disgyblion ag AAA o'i gymharu â'r ysgol gyfan;
- y cyfraddau gwaharddiadau ar gyfer disgyblion ag AAA o'u cymharu â'r ysgol gyfan;
- cyrhaeddiad a chyflawniad o'u cymharu â grwpiau tebyg o ddisgyblion yn lleol ac yn genedlaethol; a
- chyrhaeddiad a chyflawniad o'u cymharu â gwaelodlinau lefel mynediad a pherfformiad carfannau blaenorol.

At ei gilydd, mae system CRIS2 yn offeryn cynhwysfawr, trylwyr ar gyfer gwella tryloywder a monitro ffrydiau cyllid AAA mewn ysgolion prif ffrwd.

**Astudiaeth achos 2: Blaenau Gwent**

Ym Mlaenau Gwent, mae cydlynwyr AAA ac uwch reolwyr yn yr awdurdod wedi gweithio gyda'i gilydd i wella cywirdeb a gwerth y wybodaeth a gofnodir ar y cofnod CYBLD ar gyfer disgyblion ag AAA. Mae'r awdurdod yn datblygu cofnod cynhwysfawr o'r ddarpariaeth a wneir ar gyfer disgyblion ag AAA, ac mae'n dechrau cysylltu hyn â'r cynnydd a wnânt.

Yn dilyn astudiaeth beilot lwyddiannus ar ddechrau 2006, mae cydlynwyr AAA yn parhau i gofnodi'r ddarpariaeth a wneir ar gyfer disgyblion ag AAA, gan ddefnyddio categorïau newydd arfaethedig CYBLD:

- cwricwlwm ac addysgu;
- grwpio a chymorth;
- adnoddau arbenigol; a
- chyngor ac asesu.

Yn ychwanegol, mae cydlynwyr AAA a swyddogion wedi datblygu graddfa 5 pwynt i ddisgrifio'r cynnydd a wna disgyblion mewn perthynas â thargedau allweddol yn eu cynlluniau addysgu unigol:

(1) llawer o agweddau yn dal i fod yn achos pryder gydag ychydig iawn o gynnydd yn y dystiolaeth;

(2) rhywfaint o gynnydd yn y dystiolaeth ond diffygion mewn meysydd pwysig;

(3) rhai diffygion ond wedi'u gorbwyso gan gynnydd mewn meysydd allweddol/yn gyffredinol;

(4) lefelau da o gynnydd mewn meysydd allweddol/yn gyffredinol ar draws y cwricwlwm; a

(5) lefelau cynnydd rhagorol mewn meysydd allweddol wedi'u targedu, a chynnydd mewn meysydd eraill yn unol ag oedran a lefel potensial.

Mae gan gydlynwyr AAA rôl allweddol mewn barnu cynnydd disgyblion, ac mewn sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei chofnodi'n gywir mewn maes ychwanegol yng nghronfa ddata CYBLD. Mae cydlynwyr AAA a swyddogion yn gwneud defnydd da o'r wybodaeth hon i:

- amlygu grwpiau o ddisgyblion sy'n gwneud y cynnydd mwyaf neu'r cynnydd lleiaf;
- arfarnu effaith y ddarpariaeth ar gynnydd disgyblion; a
- blaenoriaethu darpariaeth ar gyfer disgyblion sy'n gwneud y cynnydd lleiaf.

**Astudiaeth achos 3: Sir y Fflint**

Mae'r awdurdod, gyda'i ysgolion, wedi bod yn llwyddiannus wrth sefydlu set ddata graidd o ddangosyddion perfformiad lleol (DP) ar gyfer monitro ac arfarnu cynnydd a chyflawniadau disgyblion ag AAA mewn ysgolion prif ffrwd ar draws yr awdurdod cyfan.

Mae'r DP lleol ar gyfer ysgolion uwchradd yn cynnwys targedau, ar gyfer disgyblion ar gofrestr AAA pob ysgol, o:

- welliant blynyddol mewn oedran darllen dros gyfnod o 12 mis;
- gwelliant blynyddol mewn oedran sillafu;
- canran y disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 sy'n cyflawni Lefel 3 Asesiad Athro mewn Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth a Chymraeg lle bo'n briodol;
- cyfradd presenoldeb;
- canran disgyblion Blwyddyn 11 sy'n cyflawni Lefel Mynediad neu'n uwch mewn Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth, Cymraeg lle bo'n briodol ac un pwnc arall;
- canran y rhai sy'n gadael yr ysgol sy'n symud ymlaen i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth;
- canran disgyblion Blwyddyn 11 sy'n cyflawni o leiaf 1 cymhwyster TGAU neu gymhwyster arall a gydnabyddir yn genedlaethol ar ddiwedd cyfnod allweddol 4; a
- nifer o ddisgyblion Blwyddyn 11 sydd ag oedran darllen yn llai na 10 oed ym mis Rhagfyr B11.

Mae'r awdurdod hefyd wedi sefydlu set gyfwerth o ddangosyddion perfformiad lleol ar gyfer gwaith y Gwasanaeth Cymorth Cynhwysiad.

**Astudiaeth achos 4: Wrecsam a Chaerffili**

Offeryn sydd ar gael yn fasnachol yw PASS (Pupils' Attitudes to Self and School) sy'n mesur agweddau disgyblion tuag at ddysgu, ac mae'n gallu olrhain newidiadau yn yr agweddau hynny dros gyfnod. Mae'n rhoi mesurau safonol o naw agwedd ar agweddau disgyblion, gan gynnwys eu teimladau am yr ysgol, eu hunanhyder fel dysgwyr, agweddau at athrawon, gweithio a phresenoldeb. Mae'n nodi disgyblion a grwpiau unigol y mae eu hagweddau at ddysgu ac atynt eu hunain yn fwy negyddol na'r cyffredin ar gyfer eu grŵp cyfoedion, ac yr ystyrir eu bod felly mewn perygl o dangyflawni.

Mae system PASS yn galluogi 'nodi' disgyblion ag anghenion dysgu unigol, gan gynnwys y rheiny sydd ag AAA a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY). Mae'r system yn darparu gwybodaeth sy'n galluogi ysgolion ac awdurdodau i

gymharu mesurau o agweddau'r disgyblion hyn â mesurau o'u cynnydd mewn dysgu a phresenoldeb, ac felly i arfarnu canlyniadau ymyriadau penodol.

Mae manylion llawnach am PASS ar gael yn: http://www.w3insights.pass-survey.com

Yn Wrecsam a Chaerffili, mae swyddogion eisoes yn gweithio gydag ysgolion cynradd ac uwchradd prif ffrwd i nodi disgyblion sydd ag agweddau negyddol at ddysgu y gallai fod angen cymorth ychwanegol arnynt i'w hatal rhag tangyflawni. Yn briodol, mae'r awdurdodau hyn yn gweld bod y gwaith hwn yn gwneud cyfraniad pwysig at yr ymdrech i hyrwyddo cynhwysiad a chodi safonau cyrhaeddiad ar gyfer pob disgybl.

Yn y tymor hwy, bydd yr awdurdodau hyn yn gallu defnyddio gwybodaeth gan PASS, ynghyd â data ar ganlyniadau dysgu allweddol fel perfformiad mewn TGAU a phresenoldeb, i arfarnu effaith cymorth ychwanegol ar gyfer disgyblion y canfuwyd eu bod mewn perygl o dangyflawni.

**Astudiaeth achos 5: Gwasanaeth rhanbarthol Gwent ar gyfer plant â nam ar eu golwg**

Mae Gwasanaeth Nam ar y Golwg Gwent yn defnyddio deunyddiau Prosiect Oregon i gynllunio gweithgareddau priodol ar gyfer plant ifanc iawn sydd â nam ar eu golwg, ac i fonitro eu cynnydd wrth ddatblygu medrau pwysig, gan gynnwys datblygiad iaith cynnar, cyd-drefniant symud gweledol, trefnu lliwiau a chyfateb ac annibyniaeth.

Mae'r gwasanaeth yn arfarnu effaith ei waith gyda disgyblion o oed ysgol trwy olrhain eu cynnydd mewn perthynas â thargedau penodol ar CAUau, y mae llawer ohonynt yn cysylltu â chyflawniadau addysgol a phersonol allweddol. Mae'r gwasanaeth hefyd yn arfarnu'r graddau y mae ymyriad yn helpu disgyblion sydd â nam ar eu golwg i wneud defnydd gwell o'r weledigaeth sydd ganddynt.

Mae athrawon arbenigol ar gyfer disgyblion sydd â nam ar eu golwg yn cadw cofnodion gofalus o'r cynnydd a wna disgyblion wrth ddysgu darllen gan ddefnyddio fersiwn Braille o Ddadansoddiad Neale o Allu Darllen. Ceir data da dros gyfnod o 5 mlynedd i ddangos y cynnydd a wna disgyblion unigol mewn cyfraddau darllen, cywirdeb a dealltwriaeth.

**Astudiaeth achos 6: Sir Ddinbych**

Mae'r awdurdod wedi datblygu rhaglen ymyriad cynnar – Addysg Plant sbectrwm awtistig (AsCE) – i gefnogi plant meithrin a derbyn sydd wedi cael diagnosis cynnar o anhwylder sbectrwm awtistig ac sydd mewn ysgolion prif ffrwd.

Mae tîm craidd sy'n cynnwys athrawon arbenigol, staff yn yr ysgolion prif ffrwd, seicolegwyr addysgol, swyddogion addysg a therapyddion lleferydd ac iaith, yn cyfarfod bob hanner tymor i arfarnu effaith y rhaglen AsCE ar y cynnydd a'r canlyniadau dysgu ar gyfer pob disgybl unigol. Mae'r tîm craidd yn datblygu offeryn arfarnu ar gyfer rhieni i'w galluogi i roi eu canfyddiad o werth y rhaglen.

**Astudiaeth achos 7:  Blaenau Gwent**

Mae swyddogion ym Mlaenau Gwent yn rhoi blaenoriaeth i hyfforddi staff mewn defnyddio data CYBLD ac FFT i gefnogi hunanarfarnu.  Mae'r hyfforddiant wedi cynnwys sesiynau penodol ar gyfer cydlynwyr AAA a rheolwyr canol mewn defnyddio data CYBLD ac FFT i arfarnu perfformiad grwpiau penodol o ddisgyblion ac i chwilio am feysydd lle mae darpariaeth yr ysgol naill ai'n hynod lwyddiannus, neu'n gymharol aflwyddiannus ac angen ei hadolygu.  Mae swyddogion gwella ysgolion yn monitro effaith yr hyfforddiant hwn yn ystod eu hymweliadau rheolaidd i drafod gosod targedau, perfformiad ysgol a hunanarfarnu.

## Cyfeiriadau


**Dadansoddiad o Gyfranogiad mewn Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 yng Nghymru:** Llywodraeth Cynulliad Cymru, Tachwedd 2006

**Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2004-2005:** Estyn, Ionawr 2006

**Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2005-2006:** Estyn, Ionawr 2007

**Assessment using the P scales: best fit – fit for the purpose?:** Andrew Martin, British Journal of Special Education, Cyfrol 33, Rhif 2, 2006

**Arfer orau wrth ddatblygu datganiadau anghenion addysgol arbennig ac ysgolion yn cyflwyno'r camau y cytunwyd arnynt:** Estyn, 2004

**Beyond Measure:** DEMOS, 2004

**Gwariant sydd wedi'i gyllidebu ar gyfer darpariaeth AAA:** SDR 80/2006, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Gorffennaf 2006

**Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau:** Llywodraeth Cynulliad Cymru, Ionawr 2004

**Dewis y camau nesaf: paratoi dysgwyr mewn Medrau Byw'n Annibynnol mewn colegau addysg bellach ar gyfer eu trosglwyddo i gyflogaeth, hyfforddiant neu addysg bellach:** Estyn, Ebrill 2004

**Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru, Prosiect Adeiladu Gallu Cronfa Gymdeithasol Ewrop, Credyd mewn Cymwysterau Cyffredinol:** Cyd-bwyllgor Addysg Cymru, Mawrth 2006

**Datblygu fframwaith mesur perfformiad ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru – y ffordd ymlaen:** Uned Ddata Llywodraeth Leol – Cymru, Chwefror 2004

**Cofnodion Addysgol, Adroddiadau Ysgol a'r System Drosglwyddo Gyffredin – cadw, gwaredu, datgelu a throsglwyddo gwybodaeth am ddisgyblion:** Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cylchlythyr Rhif 18/2006, Mai 2006

**Framework for Inclusive Education – Data Profiling Project:** Partneriaeth Ranbarthol AAA Llundain, 2004

**Arfer Da mewn Cyllid Anghenion Addysgol Arbennig - Llywodraeth Cynulliad Cymru:** Swyddfa Archwilio Cymru, Hydref 2006

**Ymateb y Llywodraeth i Adroddiad y Pwyllgor Addysg a Sgiliau ar Anghenion Addysgol Arbennig:** DfES (Yr Adran Addysg a Sgiliau) (2006), Norwich: Y Llyfrfa

**Arweiniad ar Arolygu Ysgolion Arbennig ac Unedau Cyfeirio Disgyblion:** Estyn, Medi 2004

**Inclusion and Equality – Part 2: Evaluating education for pupils with additional support needs in mainstream schools:** Arolygiaeth EM dros Addysg (Yr Alban), 2004

**Inclusion: does it matter where pupils are taught?:** Ofsted, Gorffennaf 2006

**Trefniadau Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 – Dogfen Ymgynghori:** Yr Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Hydref 2006

**Y Fframwaith Perfformiad Cenedlaethol ar gyfer AAA:** Yr Adran Addysg a Sgiliau, Mawrth 2004

**Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion 2006:** Uned Ddata Llywodraeth Leol, Hydref 2006

**Disgyblion â Datganiadau Anghenion Addysgol Arbennig, Ionawr 2006:** SDR 75/2006, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Mehefin 2006

**Adolygiad o'r cwricwlwm ysgol a threfniadau asesu:** ACCAC, 2004

**Llwybrau Dysgu – Deunyddiau asesu ar gyfer dysgwyr ag anawsterau dysgu dwys ac anableddau ychwanegol:** Llywodraeth Cynulliad Cymru, Ebrill 2006

**Setting targets for pupils with special educational needs:** Ofsted, Chwefror 2004

**Cod Ymarfer AAA Cymru:** Ebrill 2002

**Special educational needs and disability:** Sue Keil, Olga Miller a Rory Cobb, British Journal of Special Education, Cyfrol 33, Rhif 4, 2006, a www.drc-gb.org.uk

**Llwyddiant i bawb: Cymorth mewn colegau addysg bellach a chwmnïau dysgu yn y gwaith ar gyfer pobl 16-19 oed gydag anghenion dysgu ychwanegol:** Estyn, 2005.

**Cymorth i Blant ag Anghenion Addysgol Arbennig: Trosolwg gan Estyn:** Estyn, 2003

**Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith:** Llywodraeth Cynulliad Cymru, Hydref 2006

**Arolwg Thematig o Unedau Cyfeirio Disgyblion a Darpariaeth Debyg:** Estyn, 2004

**Rôl yr Ysgol wrth Gefnogi Addysg Plant mewn Gofal Cyhoeddus:** Adroddiad Ymchwil y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg/Yr Adran Addysg a Sgiliau RR498, 2006

**Llywodraeth Cynulliad Cymru – Darparu Gwasanaethau Meincnodi Mewn Addysg Ôl-16 yng Nghymru (ac eithrio Addysg Uwch):** Adroddiad Terfynol, Tribal Education, Mai 2006